




COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU GWENT

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016 - 2017



CYSYLLTU Â'R COMISIYNYDD

commissioner@gwent.pnn.police.uk
01633 642 200
www.gwent.pcc.police.uk
@GwentPCC

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent
Pencadlys yr Heddlu
Cwmbrân
Torfaen
NP44 2XJ



CYNNWYS

TUDALEN

- 4 **Cyflwyniad**
- 6 **Crynodeb o'r hyn a Gyflawnwyd Gennym yn erbyn
y Blaenoriaethau**
- 8 **Cyflawniadau 2016-17**
- 17 **Cyflawniadau Corfforaethol**
- 21 **Dwyn i Gyfrif**
- 24 **Gweithio mewn Partneriaeth**
- 33 **Edrych i'r Dyfodol**

CYFLWYNIAD



YM MIS MAI 2016, CEFAIS FY ETHOL FEL EICH COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU NEWYDD AR GYFER ARDAL GWENT

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n tynnu sylw at y mentrau allweddol a roddwyd ar waith gan fy swyddfa yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

Hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenydd, Ian Johnston QPM, sef Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau cyntaf Gwent. Diolch i'w ymdrechion yn rhoi **Cynllun yr Heddlu a Throseddau 2013-2017** ar waith, mae gennyf sylfaen gadarn ar gyfer datblygu gwasanaethau plismona yng Ngwent.

Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu â'r blaenoriaethau plismona ar gyfer 2016/17 ac yn cynnwys wythnosau olaf Mr Johnston yn ei swydd. Mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n ymwneud â rhai o'i gyflawniadau allweddol sy'n cynnwys sefydlu'r ganolfan amlasiantaeth i ddioddefwyr 'Connect Gwent', sicrhau bod swyddogion yr heddlu yn parhau'n rhan greiddiol o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, helpu i gofnodi data troseddau yn gywir a chyflwyno'r Gronfa Bartneriaeth.

Mae fy rôl fel Comisiynydd yn galluogi trigolion i leisio eu barn yn well o ran sut y caiff gwasanaethau plismona eu darparu a chymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gwasanaethau lleol. Trwy ddigwyddiadau, fforymau a chynghorfeydd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae fy staff a minnau wedi ymweld â'n cymunedau a'n partneriaid allweddol, gan gynnwys cynghorau tref a chymuned, awdurdodau lleol, swyddogion etholedig ac arweinwyr busnesau lleol yn yr ardal. Dim ond trwy wrando ar faterion a phryderon pobl a chan roi anghenion unigolion wrth galon yr hyn a wnawn, y gallwn geisio darparu'r ansawdd bywyd gorau posibl i'n dinasyddion.

Mae hyder y cyhoedd yn ein gwasanaeth plismona lleol, boddhad dioddefwyr troseddau a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn ffocws allweddol. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau i gefnogi ac amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed o fewn ein cymunedau.

Yr wyf yn arbennig o falch ein bod, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi gweld cynnydd mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael llai o effaith ar bobl yng Ngwent;
- Llwyddo i gynnal adnoddau'r heddlu a sicrhau gwerth am arian;
- Recriwtio swyddogion newydd yr heddlu er mwyn cefnogi ein gwasanaeth rheng-flaen;
- Gwella ein hymrwymiad i Goncordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl Cymru;
- Datblygu ein ffocws ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed;
- Parhau i ariannu mentrau cymunedol drwy'r Gronfa Bartneriaeth;
- Cytuno i ddatblygu strategaeth ystadau newydd;
- Parhau â'n gwaith gyda phartneriaid ar faterion sy'n ymwneud â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau;
- Trefnu cynadleddau pwysig i fynd i'r afael â materion megis caethwasiaeth fodern a phlant sydd ar goll.

Mae'r gweithgareddau y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn yn rhan bwysig o'n prosesau cynllunio strategol. Mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'i saith nod llesiant yn rhoi ffocws i bob rhan o'n gwaith, ac wrth weithio mewn partneriaeth, mae'n ein hannog i ystyried effeithiau hirdymor ein penderfyniadau ar y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.



Mae perfformiad Heddlu Gwent ers dechrau yn fy swydd wedi creu argraff gadarnhaol arnaf. Roedd yn edifar iawn gennyf dderbyn hysbysiad swyddogol y Prif Gwnstabl, Jeff Farrar QPM, o'i fwriad i ymddeol ym mis Mehefin 2017. Chwaraeodd Mr Farrar arweiniol wrth wella perfformiad Heddlu Gwent yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad, rydym mewn sefyllfa dda i fodloni'r galw presennol a galw'r dyfodol ar y gwasanaeth. O dan ei awenau, mae asesiad Arolygiaeth Cwnstablaieth Ei Mawrhydi (HMIC) o Heddlu Gwent wedi gwella o wasanaeth yr oedd angen gwella pob rhan ohono i un o'r gwasanaethau heddlu sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru a Lloegr.

Edrychaf ymlaen at barhau â'r cyflawniadau hyn yng nghwmni ei olynnydd, Prif Gwnstabl Julian Williams. Rwyf yn gadarn o'r farn bod gan Julian Williams y rhinweddau, y profiad, y dalent a'r cymhelliant i fod yn Brif Gwnstabl effeithiol a fydd yn sicrhau y byddwn yn parhau i wella fel gwasanaeth ac i wasanaethu cymunedau Gwent.

Ar ôl gwranddo ar gymunedau Gwent, partneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill, roedd yn bleser gennyf lansio fy **Nghynllun Heddlu a Throseddau ar gyfer 2017-2021**, Sicrhau Gwent Mwy Diogel, ym mis Mawrth 2017, ar ôl i **Banel yr Heddlu a Throseddau** ei gymeradwyo. Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfeiriad strategol o ran sut y dylai gwasanaethau plismona a throseddau gael eu cyflwyno yng Ngwent dros y pedair blynedd nesaf ac mae'n seiliedig ar y pum blaenoriaeth heddlu a throseddau y mae pobl wedi dweud wrthyf sy'n bwysig iddynt.

Mae'r blaenoriaethau fel a ganlyn:

- Atal Troseddau;
- Cefnogi Dioddefwyr;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol;
- Darparu Gwasanaethau'n Effeithiol.

Gobeithio y gwnewch fwynhau darllen fy Adroddiad Blynyddol. Hoffwn ddiolch i bawb y gweithiais gyda nhw yn ystod fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd yn gwneud gwahaniaeth i blismona a throseddau yng Ngwent. Hoffwn hefyd ddiolch i bobl Gwent a gyfrannodd drwy roi adborth i mi a staff fy swyddfa. Rydym am barhau i ymgysylltu â chi a gallwch gysylltu â mi gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir yn y ddogfen hon. Dim ond gyda'ch help chi y gallwn barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n cymunedau.

Jeff Cuthbert

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent.

CRYNODEB O'R HYN A GYFLAWNWYD GENNYM YN ERBYN Y BLAENORIAETHAU

Roedd Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2013-2017, a ysgrifennwyd gan fy rhagflaenydd, Ian Johnston, yn cynnwys pum blaenoriaeth. Isod ceir trosolwg o'r blaenoriaethau hyn, gan dynnu sylw at rai o'm cyflawniadau allweddol cysylltiedig gyda chymorth fy staff yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Ceir rhagor o fanylion ar y gweithgareddau hyn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.



Blaenoriaeth 1 – Darparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau posibl.

Canlyniad: Mae pobl Gwent yn fodlon bod yr heddlu yn darparu gwasanaeth sy'n bodloni eu gofynion.

Yn ystod 2016/17, rwyf wedi:

- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am ddarparu'r gwasanaeth plismona yng Ngwent;
- Ymgynghori ar y blaenoriaethau newydd ar gyfer yr heddlu a throseddu a hygyrchedd presennol yr heddlu er mwyn llywio'r broses o ddatblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2017-2021;
- Ymgynghori ar lefel cynnydd arfaethedig y praesept ar gyfer 2017/18;
- Monitro newidiadau er mwyn gwella rhif ffôn 101 ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfwng;
- Parhau i fonitro hyder y cyhoedd a boddhad dioddefwyr;
- Datblygu a lansio'r Uned Ymateb i'r Cyhoedd (PRU) yn Ilwyddiannus.



Blaenoriaeth 2 – Atal a lleihau troseddau.

Canlyniad: Mae troseddu yn cael llai o effaith ar bobl yng Ngwent.

Yn ystod 2016/17, rwyf wedi:

- Datblygu ffocws ar fynd i'r afael â Seiberdroseddau drwy ddarparu cyllid ac ymgymryd â gweithgareddau i wella ymwybyddiaeth;
- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid megis Paneli Atal Troseddau ar fentrau i leihau troseddau;
- Parhau i ddod â phartneriaid ynghyd drwy grŵp amlbartneriaeth Gwent Mwy Diogel er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf dybryd yn ein cymuned;
- Defnyddio arian parod a atafaelwyd yn bennaf gan droseddwyr i ariannu amrywiaeth o brosiectau a mentrau cymunedol drwy fy Nghronfa Bartneriaeth.



Blaenoriaeth 3 – Cymryd camau mwy effeithiol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Canlyniad: Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael llai o effaith ar bobl yng Ngwent.

Yn ystod 2016/17, rwyf wedi:

- Ariannu Cydgyssylltydd ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer Gwent er mwyn gwella'r prosesau sydd eisoes ar waith i helpu dioddefwyr ymddygiad o'r fath;
- Gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ar fentrau i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, megis defnydd anghyfreithlon o gerbydau oddi ar y ffordd a Gwyllo Cyflymder Cymunedol;
- Dechrau ar waith i sicrhau ei bod yn haws i ddioddefwyr gael gafael ar Gyfiawnder Adferol;
- Gweithio gyda phartneriaid a thrigolion yn dilyn digwyddiadau anhrefn gyhoeddus yng Nghasnewydd ym mis Hydref 2016 er mwyn helpu'r gymuned leol i wella a dod yn fwy cydnerth a grymus.



Blaenoriaeth 4 – Diogelu pobl rhag niwed difrifol.

Canlyniad: Caiff pobl yng Ngwent eu diogelu rhag niwed difrifol.

Yn ystod 2016/17, rwyf wedi:

- Datblygu Fframwaith Llesiant a Diamddiffynedd er mwyn gwella ein hymateb i'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau;
- Trefnu digwyddiadau i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â throseddau casineb; caethwasiaeth fodern a phlant sydd ar goll;
- Codi ymwybyddiaeth o feysydd pryder megis troseddau casineb a'r defnydd o gyllyll gan ar yr un pryd hyrwyddo negeseuon sy'n rhoi tawelwch meddwl ac yn annog pobl i fod yn wylidwrus yn dilyn ymosodiadau a digwyddiadau terfysgol;
- Ariannu swyddi Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) rhanbarthol er mwyn helpu pobl â phrofiad o gam-drin domestig;
- Gweithio gyda phartneriaid i gyd-ariannu swydd Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy yn Ystafell Reoli Heddlu Gwent.



Blaenoriaeth 5 – Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a sicrhau gwerth am arian.

Canlyniad: Mae pobl Gwent yn cael gwasanaeth yr heddlu sy'n cynnig gwerth am arian.

Yn ystod 2016/17, rwyf wedi:

- Pennu'r gyllideb ar gyfer Heddlu Gwent;
- Monitro trefniadau'r Prif Gwnstabl ar gyfer rheoli'r gyllideb a chyflawni'r arbedion a'r rhaglen newid trawsnewidiol a lwyddodd i gyflawni targed effeithlonrwydd o £4.4m yn ystod y flwyddyn ac i ragori ar y targed hwnnw;
- Cael barn archwilio fewnol o sicrwydd 'Rhesymol';
- Cael sicrwydd gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) bod trefniadau ar waith gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i sicrhau gwerth am arian;
- Cefnogi a monitro'r broses o roi Cynllun Pobl Heddlu Gwent ar waith a recriwtio swyddogion newydd yr heddlu i'r gwasanaeth; ac
- Lansio Gorsaf Gwasanaethau Brys newydd ar y cyd yn Abertyleri gyda'r gwasanaethau Tân ac Ambiwllans.

CYFLAWNIADAU YN YSTOD 2016 – 17

Mae gennyf ystod eang o gyfrifoldebau a ddarperir gyda chefnogaeth fy swyddfa.

YMGYSYLLTU Â'N CYMUNEDAU

Yn ystod y flwyddyn, rwyf i, fy Nirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau a'm swyddfa wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu ledled ardal gyfan Gwent. Trwy nifer o brosiectau a gweithgareddau ymgysylltu amrywiol, rhoddwyd cyfle i bobl a sefydliadau yng Ngwent ddylanwadu ar eu gwasanaeth plismona, cael gafael ar wasanaethau cymorth, gwneud cais am grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol ac ymwneud â ni'n haws mewn ffyrdd sy'n gyfleus iddynt.

Ategir hyn gan raglen ymgysylltu ac ymgynghori flynyddol a gaiff ei rhedeg gan fy swyddfa sydd wedi helpu i gynyddu ein gweithgareddau ymgysylltu fwy na **50%** eleni (**424** o weithgareddau ymgysylltu o gymharu â **281** yn ystod y flwyddyn flaenorol).



Ymhlith yr enghreifftiau lle rydym wedi ymgysylltu â phartneriaid a chymunedau mewn ffordd gadarnhaol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r canlynol:

- Ariannu a chynnal digwyddiad i arddangos canfyddiadau prosiect ymchwil a gomisiynwyd drwy Gyngor Hil Cymru. Nod y gwaith ymchwil yw ein helpu i ailymgysylltu â chymunedau y caiff eu lleisiau yn aml eu methu. Cynhwyswyd y canfyddiadau hyn yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 Swyddfa'r Comisiynydd;
- Cydweithio â Heddlu Gwent yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2016, er mwyn ymgysylltu â thros 350 o aelodau o'r cyhoedd am wahaniaethu, rhagfarn a throseddau casineb. Roedd hyn yn cynnwys cynnig cyfleoedd i ddymchwel rhwystrau a chreu cydlyniant drwy gyflwyno trigolion yng nghanol tref Cwmbrân i geiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr lleol (gan gynnwys yr holl deuluoedd yn Nhorfaen sydd wedi dod o Syria). Cawsom ganmoliaeth gan yr elusen Displaced People in Action am y digwyddiad ac am ymgysylltu â defnyddwyr ei gwasanaethau mewn ffordd gadarnhaol;
- Cynnal Digwyddiad Caethwasiaeth Fodern i'r cyhoedd a phartneriaid o'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddogfen Llywodraeth Cymru 'Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi'. Y nod oedd tynnu sylw at sut y gall cyflogwyr a'u cyflenwyr weithio'n agosach fyth gyda'r heddlu a phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau na cham-fanteisir ar bobl a'u defnyddio fel caethweision modern. Mae'r maes gwaith hwn yn bwysig ac rydym yn bwriadu ymhelaethu arno yn y dyfodol;
- Cefnogi ymdrechion i ddatblygu a chreu Cynllun Ffocws Ardal Pilgwenlli sy'n anelu at wella economi, amgylchedd a llesiant diwylliannol yr ardal, a lleihau troseddau ac ofn troseddau drwy well partneriaethau â gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol;
- Trefnu digwyddiad Ymwybyddiaeth o Sgamiau wedi'i anelu at leihau nifer y bobl sy'n dioddef o ganlyniad i'r sgamiau diegwyddor hyn. Fe'i cynhaliwyd mewn partneriaeth â Cyngor ar Bopeth Casnewydd, y Safonau Masnach, Heddlu Gwent, fy swyddfa ac Age Cymru Gwent ac roedd yn rhan o'r fenter Diogelu ein Henoed Gyd'n Gilydd (POET);
- Cymryd rhan mewn nifer o gyngorfeydd cyhoeddus ac ymweliadau ar droed ledled Gwent gyda'r Dirprwy Gomisiynydd er mwyn deall pryderon cymunedau a'u cynrychiolwyr yn well.



Yn ystod digwyddiad Cyngor Hil Cymru a gynhaliwyd yng Nghasnewydd, gwnaeth sefydliadau adduned y byddent yn gwneud popeth o fewn eu gallu i fynd i'r afael â hiliaeth.

GWELLA EIN PROFFIL

Bu cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch cyfryngau cymdeithasol fy swyddfa yn ystod 2016/17, yn arbennig o ran y defnydd o Twitter i gyfathrebu â'n rhanddeiliaid allweddol.

	Mawrth 2016	Mawrth 2017	Cynnydd / Gostyngiad	Dilynwyr Benywaidd	Dilynwyr Gwrywaidd
Twitter	2,959	3,691	Cynnydd o 24.7%	47%	53%
Facebook	1,218	1,317	Cynnydd o 8%	61%	38%

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth fy nhim a minnau'r canlynol:

- Cyhoeddi bron i 1,200 o ddiweddariadau cyfryngau cymdeithasol ar Facebook a Twitter;
- Ysgogi tua 15,000 o argraffiadau ar Facebook wrth gyflwyno fy fideo i lansio'r ymgynghoriad ar flaenoriaethau'r heddlu a

throseddu ar gyfer 2017/21, sef y nifer uchaf a gafwyd ar gyfer diweddariad unigol ar ein tudalen Facebook eleni;

- Cofnodi cyfanswm o 1,000 o erthyglau a gyhoeddwyd gan y cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gyda gwerth hysbysebu cyfatebol o £1.4m.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn faes twf parhaus a byddwn yn ystyried cyfleoedd eraill i gynyddu ein lefelau ymgysylltu gyda'n cymunedau ar-lein, yn enwedig pobl ifanc, drwy lwyfannau megis Snapchat ac Instagram. Byddwn hefyd yn cynnal ein hymrwymiad i ddulliau ymgysylltu traddodiadol megis defnyddio deunyddiau marchnata a deunyddiau wedi'u brandio i gyflwyno ein negeseuon allweddol.

YMGYNGHORIADAU

Ymgynghoriad blaenoriaethau 'Dweud eich Dweud'



Rhwng 1 Awst a 24 Hydref 2016, gofynnais i drigolion Gwent leisio eu barn ar fy mlaenoriaethau arfaethedig ar gyfer yr heddlu a throseddu a



hygyrchedd presennol yr Heddlu. Cwblhaodd 759 o bobl fy arolwg ac roedd 94% o ymatebwyr naill ai'n cytuno'n 'gryf' neu'n cytuno 'ychydig' â'm blaenoriaethau arfaethedig.

Mae'r diagram uchod yn dangos y pynciau mwyaf cyffredin a nodwyd gan bobl fel pynciau pwysig wrth ystyried blaenoriaethau'r heddlu a throseddu.

Roedd y nifer uchaf o bryderon yn ymwneud â 'swyddogion' a'u hygyrchedd a'u gwelededd mewn cymunedau. Defnyddiwyd yr adborth a gafwyd i ddatblygu fy mlaenoriaethau ar gyfer yr heddlu a throseddu sy'n darparu sail ar gyfer fy Nghynllun yr Heddlu a Throseddu 2017-2021 newydd a'm strategaeth ariannol.

Gellir gweld y gwerthusiad llawn yn www.gwent.pcc.police.uk

YMGYNGHORIAD

Ymgynghoriad praesept 'Dweud eich Dweud'

Rhwng 16 Rhagfyr 2016 ac 20 Ionawr 2017, gofynnais i drigolion Gwent leisio eu barn ar lefel y cynnydd arfaethedig yn y praesept (elfen plismona eich treth gyngor) ar gyfer 2017-18. Cwblhaodd 491 o ymatebwyr yr arolwg ac roedd 51.2% ohonynt o blaid cynnydd o rhwng 3.99% a 5% yn lefel y praesept. O ganlyniad i'ch adborth, pennais y praesept ar 3.99%. Bydd y cynnydd yn golygu y gall Heddlu Gwent recriwtio 120 o swyddogion newydd yr heddlu yn ystod 2017/18 i gryfhau'r rheng flaen.

Mae gwranddo arnoch ac ymgysylltu â chi yn golygu y gallaf gael clywed eich barn, nid yn unig am eich gwasanaeth plismona, ond hefyd am faterion lleol sy'n bwysig i chi. Caiff eich adborth bob amser ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch darparu gwasanaethau plismona. Bydd fy swyddfa a minnau yn parhau i weithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid er mwyn helpu i ddatrys unrhyw faterion a gaiff eu codi.



ADNODDAU A GWERTH AM ARIAN





Mae fy swyddfa'n derbyn adroddiadau rheolaidd fel rhan o drefniadau monitro'r gyllideb er mwyn helpu i sicrhau bod pobl Gwent yn cael gwasanaeth plismona sy'n cynnig gwerth am arian.

Yn ystod y cyfnod hwn, rwyf wedi:

- Cytuno ar ofyniad cyllideb o £120,942,177 ar gyfer Heddlu Gwent ar gyfer 2017/18 (cyllideb 2016/17 oedd £119,539,273);
- Pennu'r cynnydd yn y dreth gyngor ar 3.99% (y cynnydd yn 2016/17 oedd 3.99%);
- Cytuno ar gyllideb gyfalaf o £3,700,000 ar gyfer 2017/18;
- Parhau i fonitro sut mae'r Prif Gwnstabl yn rheoli pwysau ar y gyllideb a phwysau caledi (drwy Staying Ahead 8, rhaglen newid trawsnewidiol Heddlu Gwent). O 2008/9 hyd at ddiwedd 2016/17, cyflawnwyd tua £42m o arbedion effeithlonrwydd.

PENNU'R GYLLIDEB

Ar gyfer 2016/17, pennwyd y cyllidebau canlynol ar gyfer gwasanaethau plismona yng Ngwent:



Yn ogystal, pennwyd y cyllidebau cyfalaf canlynol yng Ngwent ar gyfer 2016/17:



Systemau Gwybodaeth a Chyfathrebu - **£2.8m**



Ystadau - **£0.5m**



Cerbydau - **£0.7m**



Prosiectau a Chynlluniau Cyfalaf eraill - **£0.2m**

SICRHAU GWERTH AM ARIAN

Rwyf wedi sicrhau bod fy swyddfa a Heddlu Gwent wedi gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau gwerth am arian wrth sicrhau bod gwasanaeth plismona effeithiol ac effeithlon yn cael ei ddarparu i drigolion. Mae hyn yn cynnwys:

- Meincnodi costau bob blwyddyn gyda chwnstablithau eraill drwy broffiliau Gwerth am Arian HMIC;
- Llunio fy Natganiad Llywodraethu Blynnyddol a'i gyhoeddi; Adroddiadau HMIC;
- Barn sicrwydd 'Rhesymol' ar gyfer 2016/17 gan yr archwilyr mewnol (TIAA) ar y system reolaeth fewnol gyffredinol (heb gynnwys archwiliadau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu o SRS y Gwasanaeth Adnoddau a Rennir);
- Archwiliad blynnyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o Ddatganiad Cyfrifon y Comisiynydd a'r canfyddiadau a gofnodwyd (gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian).
- Canlyniad archwiliad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer yr SRS gan ddarparu barn gyffredinol o wasanaeth boddhaol ar y cyfan gyda rhai gwelliannau gofynnol;



Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi monitro'r broses o lunio a gweithredu Cynllun Pobl Heddlu Gwent. Mae'r cynllun hwn yn nodi, dros gyfnod o dair blynedd, bwriadau'r sefydliad ar gyfer recriwtio, cadw a datblygu swyddogion yr heddlu ac aelodau o staff gan anelu i gyfeiriad clir er mwyn sicrhau y gallwn ymateb i'r heriau sylweddol o'n blaenau.

O ganlyniad i galedi, mae Heddlu Gwent wedi profi gostyngiad cyffredinol o 365 o swyddogion yr heddlu (24%) ers 2010/11 a rhewyd gweithdrefnau recriwtio allanol ar gyfer cwnstablaiad yr heddlu ers mis Awst 2013. Mae ariannu a darparu gwasanaethau plismona yn rhan o'm dyletswyddau statudol ac rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod gan ardal Gwent lefelau plismona priodol i fodloni gofynion cymunedau tra'n gwneud yr arbedion angenrheidiol.



Yn 2016-17, recriwtiodd y Prif Gwnstabl 160 o swyddogion yr heddlu er mwyn helpu i sicrhau gwelededd mor uchel â phosibl yn ein cymunedau a gwneud iawn am y niferoedd a gollwyd yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Cynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth arbennig gyda chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ledled Gwent fel rhan o'r ymgyrch recriwtio er mwyn helpu i sicrhau bod ein gwasanaeth plismona lleol yn adlewyrchu'r gymuned amrywiol a wasanaethir ganddo. Roedd 6% o gyfanswm nifer y ceisiadau a gafwyd am swyddi swyddogion yr heddlu newydd gan ymgeiswyr BAME, a bu wyth o'r ymgeiswyr hyn (sef 10% o gyfanswm y recriwtiaid allanol) yn llwyddiannus wrth wneud cais.

Bwriedir recriwtio 120 o swyddogion eraill yn ystod 2017/18 er mwyn buddsoddi mewn mynd i'r afael â mathau o droseddau sy'n dod i'r amlwg megis seiberdroseddau a diogelu'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Nid yw'r swyddogion hyn yn ychwanegol ond byddant yn cymryd lle'r rheini sydd wedi ymddeol neu sydd wedi gadael yr heddlu yn barod. Caiff cynllun pontio hefyd ei ddatblygu er mwyn sicrhau y caiff cyfraniadau Cwnstablaiad Gwirfoddol, Gwirfoddolwyr Cymorth yr Heddlu a Chadetiaid yr Heddlu eu defnyddio'n llawn.



Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diogelwch cymunedol a llesiant a chroesawyd ei darpariaeth ariannol ar gyfer 101 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Ngwent ar gyfer 2016/17.

Mae parhau i fuddsoddi i reoli pobl a thalent yn golygu y gall Heddlu Gwent ddylanwadu ar y gwasanaethau a ddarperir yn lleol a'u gwella gan gynnal gweithlu ymrwymedig, llawn cymhelliant ar yr un pryd. Fel rhan o hyn, mae'r sefydliad wedi ymrwmo i fuddsoddi mewn hyfforddiant sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a dementia ac i ddatblygu hyfforddiant o'r fath.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ymrwymedig i fuddsoddi yn ei staff er mwyn sicrhau ein datblygiad proffesiynol parhaus. Trwy gydol y llynedd, gwnaethom sicrhau bod ein staff yn meddu ar yr hyfforddiant a'r sgiliau angenrheidiol er mwyn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i chi.

Mae'r amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi y manteisiwyd arnynt gan fy staff yn cynnwys y Gymraeg, golygu ffilm a sain, ymdrin â chwynion, cynnal arolygon, diogelu data ac amrywiol gynadleddau arbenigol. Mae pob aelod o staff yn rhoi adborth ar unrhyw hyfforddiant yr ymgwymerwyd ag ef, a ddefnyddir i asesu'r gwerth i'r sefydliad ac i'r unigolyn.

ADNODDAU

Fel y Comisiynydd, rwyf yn gyfrifol am ystâd yr heddlu yng Ngwent sy'n cynnwys holl orsafoedd, tir ac asedau'r heddlu.

Er y gostyngiad mewn cyllid i Wasanaeth yr Heddlu dros y chwe blynedd diwethaf, rwyf yn ymrwymedig i weithio gyda phartneriaid allweddol i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth plismona gweledol a hygyrch sy'n ymateb yn ddigonol i anghenion lleol ac yn rhoi sicrwydd i'r gymuned. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi arwain at y canlynol:

- Datblygu Strategaeth Ystadau sy'n cydnabod y cyfleoedd presennol sy'n gysylltiedig â phlismona modern a'i gyfyngiadau ac yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer gwella ystadau yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Bydd y strategaeth yn nodi'r weledigaeth, y strategaeth, y cyfeiriad, yr egwyddorion a'r ffactorau er mwyn sbarduno newid;
- Fy mhenderfyniad i agor gorsaf yr heddlu barhaol newydd yng nghanol Caerffili a'r trefniadau i'w phrynu ym mis

Mawrth 2017. Mae gwaith adnewyddu ar y cownter blaen newydd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd yr orsaf yn bodloni holl ofnyion plismona modern ac yn darparu lleoliad canolog i dîm ardal Canol Caerffili;

- Agor Gorsaf Gwasanaethau Brys newydd ar y cyd yn Abertyleri. Mae'r orsaf hon, sef y cyntaf o'i bath yn Ne Cymru, wedi'i lleoli yn yr Orsaf Dàn gynt ac mae bellach yn gartref i swyddogion Heddlu Gwent, personél Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a chriwiau Tân ac Achub De Cymru. Mae cynlluniau ar gyfer darpariaethau pellach ar y cyd yn cael eu trafod gyda phartneriaid er mwyn helpu i sicrhau bod presenoldeb yr heddlu yn parhau'n gadarn yng nghanol cymunedau Gwent, ond gan leihau costau gweithredu ar yr un pryd.

YMRWYMIAD I GYDWEITHREDU



Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Huw Jakeway, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent, Jeff Cuthbert a Dirprwy Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Patsy Roseblade, y tu allan i'r Orsaf Gwasanaethau Brys ar y Cyd yn Abertyleri.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gydweithredu, yn ystod 2016/17, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cyfrannu'n llwyddiannus at ddenu cyllid gwerth dros £1.26 miliwn i ardal Gwent er mwyn rhoi'r prosiectau a'r cynlluniau canlynol ar waith:

(a) £1 filiwn gan Gronfa'r Loteri Fawr ar gyfer Tîm Plant Coll Gwent er mwyn iddo allu parhau â'i ddull amlasiantaeth o helpu rhai o'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau y rhoddir gwybod eu bod ar goll;

(b) £202,987 gan Gronfa Arloesedd yr Heddlu er mwyn rhoi blwyddyn olaf Cynllun Dargyfeirio Prosiect Braenaru i Fenywod Cymru Gyfan ar waith;

(c) £56,123 gan Gronfa Arloesedd yr Heddlu er mwyn rhoi blwyddyn gyntaf y Prosiect Ymyrryd yn Gynnar mewn Achosion o Drais Domestig ar waith. Mae'r prosiect hwn yn galluogi swyddogion yr heddlu i ymateb i ddioglyddiadau rheolaidd o gam-drin domestig yng nghwmni staff o Cymorth i Fenywod, gan felly wella'r ymateb a roddir i ddiodefwr a theluoedd yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig. Cynhaliwyd gwerthusiad a chyflwynwyd yr argymhellion i Heddlu Gwent a Cymorth i Fenywod. Yn ogystal, mae Cymorth i Fenywod wedi gwneud cais i Gronfa'r Loteri Fawr er mwyn cefnogi'r prosiect dros gyfnod o bum mlynedd. Os bydd y cais yn llwyddiannus, defnyddir yr argymhellion i wella'r ffordd y darperir y gwasanaeth.

DARPARU CYMORTH ARDDERCHOG I BOB DIODDEFWR

Un o'm blaenoriaethau ar gyfer heddlu a throseddu yw darparu cymorth ardderchog i bob un sy'n dioddef trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ganolbwyntio'n benodol ar atal niwed difrifol pellach i'n dioddefwyr mwyaf agored i niwed.

CONNECT GWENT

Sefydlwyd canolfan dioddefwyr Connect Gwent yn 2015 gan fy rhagflaenydd er mwyn darparu gwasanaeth amlasiantaeth gwell i bob dioddefwr yng Ngwent.



Mae Connect Gwent yn un o blith nifer o fentrau sydd wedi arwain at welliant o ran boddhad dioddefwyr ac ym mis Ebrill 2016, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ddarparu'r gwasanaeth i'r Prif Gwnstabl. Ar yr adeg hon, symudodd Heddlu Gwent o'r 43ain safle i'r 11eg safle yn genedlaethol o ran boddhad dioddefwyr.

Rydym yn cydnabod y galw newidiol ar blismona a'r rolau sydd gan Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent i'w chyflawni wrth ddiogelu'r rheini y mae risg y byddant yn cael niwed neu'n cael eu cam-drin. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi gweithgareddau dargyfeiriol ac ataliol a gweithio'n agos gyda'r rheini sy'n arddangos ymddygiad peryglus sy'n aml yn droseddol. Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn, mae fy swyddfa wedi:

- Lluoio fframwaith ar gyfer unigolion agored i niwed sy'n anelu at nodi'r camau cyfunol ac wedi'u targedu sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n golygu bod unigolion yn agored i niwed a welir drwy'r galw am blismona ac i ddylanwadu ar y ffactorau hynny.

- Mae'r fframwaith yn gydnaws â blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer 2017-2021 a chaiff y dull gweithredu ei gefnogi

O ganlyniad, mae llawer mwy o bobl ledled Gwent yn llwyddo i gael gafael ar y gwasanaethau cymorth a ddarperir gan Connect Gwent.

Yn ystod 2016/17, atgyfeiriwyd dros 23,000 o ddiodeswyr i Connect Gwent i gael cymorth. Mae swyddogion yr heddlu yn gwneud mwy o atgyfeiriadau uniongyrchol i'r gwasanaeth bob dydd. Mae hunangyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan asiantaethau eraill wedi cynyddu bron i 60% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Dangosodd arolygon boddhad ar gyfer gwasanaeth Connect Gwent a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod:

- bod 97% o bobl yn fodlon neu'n fodlon iawn ar y gwasanaeth;
- bod 77% o bobl yn teimlo'n fwy diogel;
- bod 81% yn teimlo bod ganddynt well gwybodaeth.

Fel Comisiynydd, mae dyletswydd barhaus arnaf i sicrhau y darperir gwasanaethau i ddiodeswyr yng Ngwent ac mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i fonitro ymateb Heddlu Gwent i ddiodeswyr a'u lefelau boddhad â'r gwasanaeth a gawsant.

Bydd ymdrechion parhaus i ddatblygu Connect Gwent yn gwella ein gallu cyfun i nodi unigolion sy'n agored i niwed ac i wella ein trefniadau cyfathrebu a'n cyrhaeddiad mewn perthynas â diodeswyr a thystion yn ein cymunedau. Bydd gwaith parhaus hefyd yn darparu dealltwriaeth fwy cywir a manwl o 'beth sy'n gweithio' i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.



- a'i ategu gan y fframweithiau polisi a deddfwriaethol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a gwaith ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynod;

- Buddsoddi mewn adnoddau staff ychwanegol i'r Uned Diogelu'r Cyhoedd o fewn Heddlu Gwent er mwyn gwella trefniadau gweithio

mewn partneriaeth, ymchwilio ac atal y bygythiad a'r risg sy'n gysylltiedig â throseddau cudd megis Caethwasiaeth Fodern;

- Rhoi model Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ar waith ar gyfer Gwent sy'n ceisio ymhelaethu ar y strategaeth genedlaethol a mabwysiadu'r egwyddorion allweddol sy'n gysylltiedig ag ymwybyddiaeth sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn.

GWELLA CYMORTH IECHYD MEDDWL

Un o'r digwyddiadau cyntaf a fynychais fel Comisiynydd oedd digwyddiad i gefnogi'r Wythnos Ymwybyddiaeth o Iechyd Meddwl Genedlaethol (16-22 Mai 2016). Bu'r Prif Gwnstabl a minnau yn cyfarfod â dioddefwyr troseddau â gofynion iechyd meddwl er mwyn dysgu mwy am y ffordd y llwyddodd y cymorth arbenigol a gawsant drwy Connect Gwent i'w helpu i ymdopi â'u profiad fel dioddefwr ac i wella o'r profiad hwnnw. Roedd yr ymweliad hefyd yn arwydd o'm hymrwymiad i sicrhau y gall dioddefwyr troseddau â gofynion iechyd meddwl gael gafael ar gymorth priodol yng Ngwent. Ers mis Ebrill 2015, atgyfeiriwyd 243 o ddiodeffwyr at Ymarferydd Llesiant Connect Gwent i gael help seiciatrig.



Yn dilyn cydnabyddiaeth gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Strategol, Gwent Mwy Diogel, penderfynwyd y byddai o fudd cynnwys ymarferydd iechyd meddwl cymwys yn Ystafell Reoli Heddlu Gwent. Cyd-ariannwyd cyfnod prawf cychwynnol o chwe mis gan fy swyddfa a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a secondiwyd Ymarferydd Iechyd Meddwl Cymeradwy cymwys i'r swydd. Mae'r prosiect yn rhan o ymrwymiad fy swyddfa a Heddlu Gwent i gefnogi'r egwyddorion allweddol a amlinellir yng Nghoncordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl Cymru.

Mae adolygiad cychwynnol o'r cynllun peilot wedi dangos y canlynol:

- Canlyniadau a phrofiadau cadarnhaol i unigolion, yr heddlu ac asiantaethau eraill;
- Mae llwybrau amgen i gadw unigolion yn y ddalfa o dan adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl (lle y caiff unigolyn ei gadw yn y ddalfa fel 'man diogel' tra'n aros i gael asesiad gan feddyg a gweithiwr cymdeithasol cymeradwy) yn fwy hygyrch;
- Gwell dealltwriaeth o iechyd meddwl a gwell trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth;
- Penderfyniadau mwy hyddysg a phrosesau cyflymach ar gyfer gwneud penderfyniadau;
- Arbedion sylweddol o ran amser, arian ac adnoddau.



O ganlyniad i'r buddiannau cadarnhaol a nodwyd, rwyf wedi cytuno i ddarparu cyllid i Heddlu Gwent fuddsoddi ymhellach yn y maes hwn. O ganlyniad, cymeradwywyd cynnig i ehangu o un swydd i chwe swydd, gan gynnwys swydd Goruchwylydd. Cynhelir proses recriwtio yn ystod 2017/18.

Mae fy swyddfa hefyd wedi cefnogi mentrau llesiant Heddlu Gwent mewn perthynas ag iechyd meddwl. Darparwyd diwrnod hyfforddiant penodedig i bob un o swyddogion yr heddlu ac aelodau o staff er mwyn galluogi iddynt nodi cyflyrau iechyd meddwl posibl ynddynt hwy eu hunain a'u cydweithwyr a gwybod pa help sydd ar gael. Y gobaith yw y bydd nodi arwyddion rhybudd yn gynharach, a gwybod ble i gael cymorth, yn arwain at leihad yn nifer yr achosion o salwch oherwydd straen a chyflyrau iechyd meddwl eraill cysylltiedig, ymwybyddiaeth well o iechyd meddwl ymhlith y gweithlu a mwy o sensitifrwydd wrth ddarparu gwasanaethau.

TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG A THRAIS RHYWIOL



Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn aelod o Fwrdd Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent-gyfan. Gan weithio gyda phartneriaeth Gwent Mwy Diogel, rydym wedi parhau i ariannu Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol a Chydgyssylltydd ar gyfer yr eiriolwyr hyn ar gyfer y rhanbarth. Mae parhad y gwasanaeth wedi sicrhau'r canlynol i bob unigolyn a gaiff ei atgyfeirio i gael cymorth:

- Rhoddir gwybodaeth a chyngor iddo;
- Gall gael gafael ar wasanaethau priodol;
- Rhoddir cyngor cynllunio diogelwch iddo er mwyn gwneud iddo deimlo'n fwy diogel;
- Gwelliannau i'w lesiant/ansawdd bywyd.



Yn ystod 2015/16, cafodd cyfanswm o 369 o oedolion a oedd yn wynebu risg uchel o gam-drin domestig gymorth gan Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol yng Ngwent; yn 2016/17, cynyddodd hyn i 473 o achosion risg uchel gyda 139 o achosion risg canolig hefyd wedi'u cofnodi. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella'r fframwaith adrodd drwy ddarparu'r data yn ôl rhyw. Gweithiodd fy swyddfa hefyd yn agos gyda chydweithwyr yn Heddlu Gwent i gyflwyno seminar ar reolaeth orfodol.

Rwyf yn parhau i gomisiynu gwasanaethau i ddiodefwyr trais rhywiol yng Ngwent ac mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â phartneriaid ledled Cymru er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Mae darparu'r gwasanaethau hyn yn golygu y gall diodefwyr cam-drin domestig a/neu rywiol yng Ngwent fod yn hyderus y byddant yn cael lefel cymorth ardderchog a chyson gan bob darparwr.

CYFLAWNIADAU CORFFORAETHOL

Bu Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn llwyddiannus mewn perthynas ag amrywiaeth o fentrau eraill sy'n gysylltiedig â'n rôl a'n cyfrifoldebau corfforaethol ac wrth gynnal y safonau a gyflawnir gan y sefydliad.

LANSIO'R UNED YMATEB I'R CYHOEDD



Ym mis Ebrill 2016, sefydlodd Swyddfa'r Comisiynydd yr Uned Ymateb i'r Cyhoedd (PRU) er mwyn darparu gwell lefel o wasanaeth i'r cyhoedd drwy sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw anffodlonrwydd â Heddlu Gwent cyn gynted â phosibl ac mor effeithiol â phosibl cyn iddo ddatblygu'n gŵyn fwy difrifol. Wrth i'r Uned ddatblygu, cynhaliodd staff yr Uned arolwg gydag aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi gwneud cwyn i Heddlu Gwent a/neu Swyddfa'r Comisiynydd rhwng mis Ebrill 2015 a mis Ebrill 2016. Dosbarthwyd 235 o arolygon a derbyniwyd 69 o ymatebion (29%).

Dangosodd y canfyddiadau cychwynnol nad oedd 57% o ymatebwyr yn hyderus y byddai eu cwyn yn cael ei chymryd o ddifrif; roedd 54% yn fodlon â'r cyswllt cychwynnol a wnaed gan Heddlu Gwent/Swyddfa'r Comisiynydd ar ôl gwneud eu cwyn; roedd 66% yn anffodlon â'r cyfnod o amser a gymerodd i ymchwilio i'w cwyn; ac roedd 55% o'r farn na chawsant eu hysbysu'n ddigonol drwy gydol y broses.

Defnyddiwyd yr adborth hwn, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer meysydd i'w gwella, er mwyn helpu i ddylunio'r gwasanaeth.

Sefydlwyd yr uned er mwyn hyrwyddo didwylledd, tryloywder ac effeithlonrwydd ac er mwyn darparu ymateb priodol mewn modd amserol. Mae'n ategu gwaith adran Safonau Proffesiynol Heddlu Gwent sy'n ymdrin â chwynion mwy difrifol yn erbyn swyddogion ac aelodau o staff ac ar yr un pryd, yn annog aelodau o'r cyhoedd i sôn am brofiadau cadarnhaol o'r gwasanaeth a gawsant.

Ers ei chyflwyno, mae'r Uned wedi:

- Ymdrin â chyfanswm o 457 o ddigwyddiadau;
- Cwblhawyd 443 o ddigwyddiadau gan staff yr Uned ac ni fu'n rhaid cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach;
- Dim ond 14 o achosion a atgyfeiriwyd at yr adran Safonau Proffesiynol i'w datrys;
- Credir bod hyn wedi cyfrannu at y gostyngiad o 20% yn nifer y cwynion am yr heddlu yn ardal Gwent.

Cynhelir arolwg blynyddol er mwyn mesur effaith yr Uned ar hyder a boddhad pobl sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae'r Uned yn parhau i ddatblygu er mwyn addasu i unrhyw newidiadau o dan Ddeddf Plismona a Throseddau 2017 ac er mwyn ymdrin â'r holl ohebiaeth gychwynnol sy'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chwynion. Ein bwriad yw y bydd hefyd yn gallu rhoi cymorth pan fydd angen eiriolaeth a phan fydd anghenion iechyd meddwl i'w hystyried.

TRIBIWNLYSOEDD APELIADAU'R HEDDLU (PATS)



Mae Tribiwnlysoedd Apeliadau'r Heddlu (PATS) yn gwrandao ar apeliadau yn erbyn canfyddiadau o gamymddwyn difrifol a gyflwynwyd gan swyddogion yr heddlu neu gwnstabiailid gwirfoddol. Gall aelodau o'r cyhoedd bellach fynychu gwrandawriadau apêl fel arsylwyr ond ni chaniateir iddynt gymryd rhan mewn gweithrediadau. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn gyfrifol am benodi'r Cadeirydd i gynnal y gweithrediadau ac am hwyluso'r trefniadau ar gyfer tribiwnlysoedd.

Drwy gydol 2016/17, cynhaliwyd pedwar Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu: trefnwyr tri ohonynt gan Swyddfa Comisiynydd Gwent ac un gan Swyddfa Comisiynydd De Cymru. Addaswyd y pedwar tribiwnlys i gydymffurfio â'r rheoliadau newydd o ran cynnal gwrandawriadau yn gyhoeddus sy'n golygu bod proses lawer mwy tryloyw ac effeithlon bellach ar waith.

CYDYMFFURFIO Â'R RHESTR WIRIO FOESEGOL

Yn dilyn fy etholiad, ymrwymais i gydymffurfio â Rhestr Wirio Foesebol y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus sy'n rhoi gwybodaeth am y dull gweithredu moesebol a fabwysiadwyd gennyf er mwyn hyrwyddo, cefnogi a chynnal safonau uchel tra y byddaf yn fy swydd.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, agorais broses recriwtio gadarn ar gyfer Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau o fis Gorffennaf hyd at fis Awst 2016, ac o ganlyniad, penodwyd Eleri Thomas MBE.

Wrth weithio'n unol â'r Rhestr Wirio Foesebol, gallaf ddarparu tystiolaeth fy mod yn cydymffurfio â'r Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ac ennyn hyder y cyhoedd mewn unrhyw brosesau recriwtio a roddir ar waith. Cynhelir pob penodiad yn y dyfodol yn unol â'r dull gweithredu hwn, gan gynnwys unrhyw broses i recriwtio Prif Gwnstabl newydd.



Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent, Eleri Thomas.

GWOBR DRYLOYWDER CYMHARU EIN COMISIYNWYR HEDDLU A THROSEDDU (COPACC)



Roedd yn bleser gennyf weld fy swyddfa yn cadw'r Nod Ansawdd ar gyfer Tryloywder ar gyfer 2016-17 gan arbenigwr llywodraethu'r Heddlu, CoPaCC. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r sefydliad ennill y wobwr am ddarparu gwybodaeth allweddol i'r cyhoedd ar ffurf hygyrch ar ein gwefan. Rydym yn gobeithio ennill y Wobr Dryloywder unwaith eto yn 2017/18 drwy barhau i gyflawni'r gofynion cyfreithiol a chyhoeddi cymaint o wybodaeth ychwanegol â phosibl.

Yn y llun: Paul Grady, Pennaeth Polisi Grant Thornton gyda Phennaeth Staff Swyddfa'r Comisiynydd, Siân Curley, Swyddog Gwybodaeth Swyddfa'r Comisiynydd, Joanne Regan, a Phrif Weithredwr CoPaCC, Bernard Rix.

CYDYMFFURFIO Â'R DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH

Cafodd Swyddfa'r Comisiynydd 18 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod 2016/17 a chyflawnodd lefel gydymffurfiaeth o 100% â'r gofyniad cyfreithiol i ymateb i bob cais o fewn 20 diwrnod gwaith.

Dylai hyn roi hyder i'r cyhoedd ein bod yn cymryd y gofynion hyn o ddifrif. Roedd y ceisiadau a gafwyd yn ymwneud ag amrywiaeth o themâu, gan gynnwys ariannu a materion

ariannol, prosesau a lefelau staffio Swyddfa'r Comisiynydd, materion plismona gweithredol a chwynion.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cadw Cynllun Cyhoeddiadau sy'n ein hymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'n gweithgareddau busnes arferol. Mae'r cynllun yn nodi:

• Pa wybodaeth y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ei chyhoeddi neu'n bwriadu ei chyhoeddi;

- Sut y byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon;
 - P'un a fydd y wybodaeth ar gael am ddim neu a fydd angen talu amdani.
- Caiff y Cynllun Cyhoeddiadau ei ddiweddarau yn unol â newidiadau i ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, canllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw ofynion statudol eraill i gyhoeddi gwybodaeth. Gellir gweld y Cynllun Cyhoeddiadau llawn ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd.



Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â'i gwirfoddolwyr. Mae'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn rhoi cyfle i wirfoddolwyr ddod i orsafoedd yr heddlu er mwyn gweld sut y caiff unigolion a gedwir yn y ddalfa eu trin, o dan ba amodau y cânt eu cadw a ph'un a gaiff eu hawliau a'u hawliadau eu parchu. Mae'n cynnig diogelwch i unigolion a gedwir ac i'r heddlu ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r gymuned yn gyffredinol. Trwy gydol 2016/17, roedd 11 o wirfoddolwyr yn rhan o'r cynllun a chynhaliwyd 189 o ymweliadau ganddynt. Arweiniodd hyn at y canlynol:

- Cafodd 67% o'r unigolion a gadwyd yn y ddalfa ymweliad gan wirfoddolwr;
- Ymdriniwyd â 96.3% o'r materion a nodwyd gan wirfoddolwyr gan ringyll y ddalfa ar adeg yr ymweliad;
- Dim ond dau fater a uwchgyfeiriwyd i Swyddfa'r Comisiynydd ac ymdriniwyd â hwy ar unwaith gan Arolygydd y Ddalfa. Roedd un yn ymwneud ag oedi wrth gael gweld ystafelloedd y ddalfa, roedd yr ail yn ymwneud â darpariaethau meddygol yn y ddalfa.

Mae'r Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd hefyd wedi cadarnhau bod y penderfyniad i newid o ddwy ddalfa i un yn llwyddiant, ac na nodwyd unrhyw feysydd pryder.

Cynllun Lles Anifeiliaid

Mae'r Cynllun Lles Anifeiliaid yn galluogi aelodau o'r gymuned leol i ymweld, gan arsylwi a chyflwyno adroddiadau ar yr amodau lle y caiff cŵn yr heddlu eu cadw, eu hyfforddi a'u cludo. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd naw archwiliad gan bum gwirfoddolwr sy'n rhan o'r cynllun. Cofnodir canlyniadau'r ymweliadau gan Swyddfa'r Comisiynydd ac fe'u rhennir gyda Heddlu Gwent er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion neu bryderon a godir gan y gwirfoddolwyr.

Yn 2016, cefnogodd y Comisiynydd 'Gyfraith Finn', sef y ddeiseb i newid y ffordd y caiff y rheini a ganfyddir yn

euog o niweidio cŵn sy'n gweithio i'r heddlu eu dedfrydu. Yn dilyn y ddeiseb, cynhaliwyd dadl ar y mater yn y Senedd ac o ganlyniad, diwygiwyd canllawiau'r Cyngor Dedfrydu ar gyfer ymdrin ag ymosodiadau ar anifeiliaid. Mae'r canllawiau newydd yn cynnwys, fel ffactor gwaethgol penodol, ymosodiadau yn erbyn 'anifail a ddefnyddir ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus neu fel ci cymorth' a fydd yn cynyddu difrifoldeb trosedd o'r fath. Mae hyn yn golygu y gallai ymosodiad ar un o gŵn yr heddlu fel Finn arwain at ddedfrydau mwy sylweddol i'r troseddwr nag erioed o'r blaen o dan ddeddfwriaeth Lles anifeiliaid.



Gan weithio gyda Heddlu Gwent, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi defnyddio'r adborth a gafwyd gan aelodau ein cynllun er mwyn helpu i sicrhau ffocws addas ar les unigolion a gedwir yn y ddalfa gan yr heddlu yn ogystal ag unrhyw gŵn yr heddlu, ac i roi sicrwydd i'r cyhoedd y cynhelir safonau priodol ym mhob achos.

Bwriedir cynnal prosesau recriwtio ar gyfer y ddau gynllun ar gyfer 2017/18 er mwyn cynyddu nifer y gwirfoddolwyr, wrth i rai ohonynt gyrraedd diwedd eu cyfnod gwirfoddoli.

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2016-2020

Ym mis Ebrill 2016, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf ar y cyd gyda Heddlu Gwent. Mae cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd yn golygu y gallwn fonitro a chraffu ar berfformiad Heddlu Gwent mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth.

Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar y cyd gyda Heddlu Gwent ym mis Medi 2017 er mwyn dangos sut rydym yn cyflawni yn erbyn amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Y GYMRAEG

Cyhoeddwyd safonau ar wahân ar gyfer y Gymraeg i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl gan Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2016.

Cydweithiodd Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent i roi'r safonau ar waith er mwyn ategu ymrwymiad ar y cyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl i weithio tuag at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus dwyieithog. Fel rhan o'n gwaith i gydymffurfio â'r safonau, rydym wedi ymgymryd â nifer o weithgareddau, gan gynnwys:

- Sefydlu Bwrdd y Gymraeg ar y cyd i oruchwylio cynnydd wrth weithredu;
- Cyhoeddi Strategaeth y Gymraeg ar y cyd sy'n nodi sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau;
- Cyflogi Swyddog Polisi'r Gymraeg ar y cyd er mwyn hyrwyddo'r broses o ddatblygu'r Gymraeg ym mhob rhan o Heddlu Gwent a gwella argaeledd gwasanaethau i unrhyw un sy'n awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Dechrau recriwtio cyfieithydd Cymraeg i'n helpu i fodloni gofynion darparu gwasanaeth dwyieithog;
- Ymgysylltu'n weithredol â nifer o bartneriaid sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg a'r Cynulliad Cenedlaethol er mwyn cefnogi ein hymgyrch recriwtio;
- Comisiynu Menter Iaith (Caerffili) i ddarparu asesiad annibynnol o dri phrif adeilad yr heddlu er mwyn canfod pa mor gynhwysol yw'r adeiladau hynny i unrhyw un sy'n awyddus i ddefnyddio gwasanaethau plismona drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyriwyd canlyniadau'r archwiliad gan y Bwrdd ac fe'u defnyddiwyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r gofynion.

Cyflawnwyd y dyddiad cydymffurfio cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth 2017 yn llwyddiannus ac rydym yn parhau i weithio tuag at gydymffurfiaid terfynol gyda'r safonau ar ddiwedd mis Medi. Yn ogystal, byddwn yn cyhoeddi ein Hadroddiadau Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg i ddarparu tystiolaeth i'r cyhoedd ar sut yr ydym wedi cydymffurfio â'r gofynion yn ystod 2016/17.

STATWS 'YSTYRIOL O DDEMENTIA'

Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent oedd y sefydliadau cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i gyflawni nod barcud 'Cymuned sy'n Ystyriol o Dementia' swyddogol y Gymdeithas Alzheimer, gan gydnabod ein hymrwymiad i weithio mewn ffordd sy'n ystyriol o ddementia, codi ymwybyddiaeth o ddementia a chyflawni'r saith maen prawf a bennwyd gan y Gymdeithas Alzheimer.

Fel rhan o hyn, cafodd tua 1,000 o swyddogion rheng flaen Heddlu Gwent hyfforddiant er mwyn iddynt allu deall a helpu pobl sy'n agored i niwed yn y gymuned ac ymateb yn effeithiol a chan ddangos empathi pan fydd pobl â dementia yn drysu. Aeth staff o Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent i sesiynau ymwybyddiaeth er mwyn gwella eu dealltwriaeth o ddementia.

Mae Heddlu Gwent hefyd wedi cefnogi ac wedi mabwysiadu Protocol Herbert, sef cynllun diogelu cenedlaethol sy'n helpu'r heddlu, gwasanaethau iechyd ac awdurdodau lleol i leihau'r risg o niwed y caiff pobl â dementia eu hamlygu iddi os byddant yn mynd ar goll. Mae'r protocol yn annog gofalgwyr i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol ynghyd y gellid ei defnyddio os aiff unigolyn agored i niwed ar goll.

O ganlyniad i roi Protocol Herbert ar waith a hyfforddi swyddogion, llwyddwyd i ddiogelu 30 o bobl sy'n byw â dementia yn eu cartrefi. Mae 22 o gartrefi gofal hefyd wedi mabwysiadu'r protocol. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid drwy gydol 2017/18 er mwyn sicrhau dull gweithredu effeithiol mewn perthynas â chynlluniau diogelu lleol.



DWYN I GYFRIF

Un o'm dyletswyddau craidd fel Comisiynydd yw sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn cael ei ddwyn i gyfrif. Er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn darparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol, cytunir ar ganlyniadau perfformiad gyda'r Prif Gwnstabl. Trwy waith monitro a chraffu effeithiol, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn fy helpu i sicrhau y caiff y gwasanaeth plismona yng Ngwent ei ddatblygu a'i wella'n barhaus.



Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi:


- Sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol drwy gyfarfodydd wythnosol a thrwy fy nghyfarfodydd Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad a gynhelir yn gyhoeddus er mwyn sicrhau cymaint o dryloywder â phosibl;
- Gweithio gyda Heddlu Gwent er mwyn adolygu'r Fframwaith Perfformiad ar gyfer Cynllun yr Heddlu a Throseddau a Chynllun Cyflawni Heddlu Gwent ac er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar unrhyw feysydd i'w gwella a nodwyd gan HMIC;
- Cynnal ffocws ar wella perfformiad Heddlu Gwent ar gyfer y rhif 101 ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfwng. Cyn mis Mehefin 2016, roedd y ffaith bod nifer o fentrau yn cael eu cyflwyno wedi effeithio ar y gallu i ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad, roedd lefelau gwasanaeth wedi gostwng yn sylweddol is na'r terfynau derbynol. Er bod llawer mwy o waith i'w wneud, mae hwn yn faes o ddatblygiad a gwelliant parhaus;
- Adolygu a herio, lle y bo'n briodol, gwaith y Prif Gwnstabl wrth roi'r rhaglen newid trawsnewidiol Staying Ahead 8 ar waith;
- Cael fy nghynrychioli gan aelodau o staff mewn cyfarfodydd fforymau gweithredol a strategol mewnol Heddlu Gwent er mwyn gweithredu fel cyfaill beirniadol a rhoi adborth i Swyddfa'r Comisiynydd.

PANEL YR HEDDLU A THROSEDDU

Mae Panel yr Heddlu a Throseddau yn archwilio camau gweithredu a gymerwyd a phenderfyniadau a wneir gennyf, yn hyrwyddo didwylledd a thryloywder wrth ymgymryd â busnes yr heddlu ac yn rhoi cymorth er mwyn i mi arfer fy swyddogaethau yn effeithiol. Mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion am fy ymddygiad wrth gyflawni fy rôl. Yn ystod y flwyddyn, ymgynghorwyd ag aelodau'r Panel ar amrywiaeth eang o brosiectau, gweithgareddau a mentrau yr ymgymerwyd â hwy gan fy swyddfa, gan gynnwys y canlynol:

- Pennu'r Praesept;
- Gwrandawriad cadarnhau ar gyfer penodi Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau;
- Llunio Cynllun yr Heddlu a Throseddau 2017-2021 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16;
- Monitro gweithrediad y Cynllun;
- Llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020;
- Perfformiad ariannol drwy gydol 2016/17;
- Recriwtio swyddogion newydd i ardal Gwent;
- Gwelliannau i'r gwasanaeth 101, sef y rhif ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfwng.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i'm helpu i ymgysylltu â'r Panel ac i ymdrin ag unrhyw argymhellion a wneir o ganlyniad.



Jeff Cuthbert gyda Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, Julian Williams, Cadeirydd Panel y Heddlu a Throseddau Gwent, Cyng John Guy, ac Is-gadeirydd y Panel a'r Aelod, Gillian Howells.

AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI (HMICFRS)

Cadarnhaodd adroddiadau'r Arolygiaeth yn ystod 2016 y gwaith ardderchog a wnaed gan Heddlu Gwent wrth barhau i wella'r gwasanaethau plismona a ddarperir i'r cyhoedd yng Ngwent. Rhoddwyd barn gyffredinol o DA o leiaf i bob maes a arolygwyd, sy'n cynrychioli newid sylweddol o'r sefyllfa flaenorol lle roedd angen gwella. Yn arbennig, roedd y radd 'eithriadol' a roddwyd i feysydd buddsoddi mewn technoleg a gallu Heddlu Gwent i addasu er mwyn ymdrin â galw a blaenoriaethau cyfnewidiol gan yr Arolygiaeth yn galonogol.

Mae'r Arolygiaeth bellach o'r farn mai Gwent yw un o'r heddluoedd sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru a Lloegr a gallaf eich sicrhau y byddaf yn parhau i helpu'r Prif Gwnstabl i ymdrin ag unrhyw feysydd i'w gwella a nodir yn ystod prosesau arolygu. Fel sy'n ofynnol gan Adran 55(5) o Ddeddf yr Heddlu 1996, mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cydymffurfio ag amserlenni statudol wrth ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Cartref ar bob arolygiad gan yr Arolygiaeth sy'n ymwneud â Heddlu Gwent. Gall y cyhoedd weld canlyniadau arolygiadau ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd gennyf a'r Prif Gwnstabl mewn



perthynas â meysydd i'w gwella. Bydd y Comisiynydd yn parhau i gydymffurfio ag amserlenni statudol a sicrhau y caiff y cyhoedd a Phanel yr Heddlu a Throseddu eu hysbysu'n llawn am ganlyniadau'r Arolygiaeth a'n hymatebion.

RHOI GWYBOD AM DROSEDDAU



Ar gyfer y cyfnod cofnodi ar ddiwedd mis Mawrth 2017, cofnododd Gwent 41,139 o droseddau.

Mae hyn yn cyfateb i 70.7 o droseddau fesul 1,000 o drigolion, sy'n golygu ein bod yn y 25ain safle allan o'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cofnododd Gwent 3,517 yn fwy o droseddau - cynnydd o 9.3%. Gellid priodoli hyn yn rhannol i ffocws parhaus Heddlu Gwent ar gofnodi troseddau yn gywir yn ogystal â'r ffaith bod gan ddiodefwyr fwy o hyder i roi gwybod am droseddau gan wybod y cânt y cymorth priodol yng Ngwent.

Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ystadegau y bu rhai achosion o gynnydd gwirioneddol mewn rhai mathau o droseddau a gallaf eich sicrhau fy mod yn trafod y tueddiadau hyn sy'n dod i'r amlwg gyda'r Prif Gwnstabl. Byddaf yn gweithio ochr yn ochr ag ef i fonitro'r tueddiadau hyn a byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau sy'n ysgogi unrhyw newidiadau er mwyn i ni allu parhau i sicrhau bod Gwent yn lle diogel i fyw a gweithio i bawb.

HYDER Y CYHOEDD

O ganlyniad i'r ffocws parhaus ar gofnodi troseddau yn gywir, cyflawnodd Heddlu Gwent gyfradd cydymffurfio o dros 90% mewn perthynas â chofnodi yn ystod 2016/17. Mae hyn yn dangos y gall pobl fod yn hyderus iawn y caiff troseddau yng Ngwent eu cofnodi'n gywir.

Mae'n bwysig bod gan ein cymunedau hyder yn y ffordd y caiff eu gwasanaeth plismona lleol ei ddarparu er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent er mwyn sicrhau ffocws ar wella lefelau hyder y cyhoedd ar gyfer 2017/18.

Thema Hyder y Cyhoedd	Cyfartaledd Cenedlaethol Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn ystod y 12 mis hyd at fis Medi 2016	Gwent Y 12 mis hyd at fis Medi 2015	Gwent Y 12 mis hyd at fis Medi 2016
Yr Heddlu: Ymdrin â blaenoriaethau'r gymuned	60.9%	58.1%	56.4% (-1.7%)
Yr Heddlu: Eich trin â pharch	87.3%	86.6%	86.8% (+0.2%)
Yr Heddlu: Trin pawb yn deg	68.0%	62.1%	61.5% (-0.6%)

Rwyf yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Gwent ar sut y gallwn wella hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth a ddarperir iddynt ac mae hyn yn bendant yn faes rydym yn bwriadu canolbwyntio arno yn y dyfodol.

BODDHAD DIODDEFWYR

Parhaodd Swyddfa'r Comisiynydd i fonitro perfformiad Heddlu Gwent drwy gydol 2016/17 mewn perthynas â boddhad dioddefwyr. Mae'n bleser gennym nodi mai Heddlu Gwent yw'r 15fed uchaf o ran lefelau boddhad cyffredinol dioddefwyr troseddau o blith y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol sy'n deillio o weithgareddau cyfun Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent, gan gynnwys rhaglen 'CARES' (y ffordd y mae swyddogion yr heddlu yn ymdrin â dioddefwyr troseddau a'r ymchwiliad cysylltiedig) a Connect Gwent.

Mae lefelau boddhad cyffredinol dioddefwyr troseddau ychydig yn is na'n perfformiad 12 mis yn ôl (-3.0%). Dechreuodd tuedd ar i lawr ddod i'r amlwg ym mis Ebrill 2016 ond mae lefelau boddhad wedi parhau'n sefydlog ers mis Medi 2016 o ganlyniad i weithgareddau penodol i ddeall y duedd lle y'i nodwyd.

CYD-BWYLLGOR ARCHWILIO

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn darparu sicrwydd annibynnol o ran risg, rheolaeth fewnol, craffu a goruchwyllo prosesau adrodd ar berfformiad ariannol i mi ac i'r Prif Gwnstabl.

Yn ystod 2016-17, cynhaliodd y Cyd-bwyllgor bedwar cyfarfod ffurfiol ynghyd â phedair sesiwn dealltwriaeth fanwl er mwyn helpu aelodau i feithrin dealltwriaeth ehangach o'r gwaith a wneir gan Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent.

Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd y Cyd-bwyllgor ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 ynghyd â'r Datganiad Cyfrifon, gan nodi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn a'i ffocws ar gyfer 2016/17. Rhoddodd yr Adroddiad Blynyddol sicrwydd i mi a'r Prif Gwnstabl o gadernid y gwaith a wnaed gan y Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i lunio Adroddiad Blynyddol 2016/17.

Mae hyn yn cynnwys codi'r mater gyda'r Prif Gwnstabl yn y Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad a darparu ffocws cynyddol ar raglen CARES.

Boddhad Cyffredinol	Ionawr 2016	Ionawr 2017
Trosedd	86%	83%
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	79%	76.7%

Ar ôl gostyngiad bach dros amser, mae lefelau boddhad dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol bellach yn sefydlog ar hyn o bryd. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i fonitro'r ffordd y mae Heddlu Gwent yn darparu cymorth i bob dioddefwr trosedd er mwyn sicrhau bod pobl yn fodlon ar y gwasanaeth a gawsant a bod ein dinasyddion yn fwy hyderus wrth roi gwybod am droseddau a digwyddiadau pan fyddant yn digwydd.




Gellir gweld adroddiad llawn y Cyd-bwyllgor yn www.gwent.pcc.police.uk

GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Rhoddyd pwyslais mawr ar ddatblygu partneriaethau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ni all yr heddlu fod yn gyfrifol am blismona a throsteddu ar ei ben ei hun a'r ffordd orau o sicrhau y caiff y rhan fwyaf o broblemau eu datrys yw drwy sicrhau bod y gymuned gyfan yn cydweithio. Ymgorfforir y dull gweithredu 'un gwasanaeth cyhoeddus' hwn yn gadarn yn y ffordd y mae fy swyddfa a Heddlu Gwent yn gweithio gyda'n partneriaid yn lleol ac yn genedlaethol.

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Nodau Llesiant



Y saith nod llesiant i Gymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

GRŴP PLISMONA CYMRU GYFAN

Ym mis Gorffennaf 2016, cynhaliais gyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan yng Ngwent, y cyfarfod cyntaf ers i mi gael fy ethol yn Gomisiynydd ym mis Mai. Mae'r pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throsteddu a Phrif Gwnstabiliaid Cymru yn parhau i gyfarfod bob chwarter i drafod materion strategol, i nodi'r ffordd orau iddynt gydweithio er mwyn atal trosteddau a diogelu dioddefwyr trosteddau rhag niwed difrifol ac i fanteisio ar gyfleoedd i gydweithredu.

Yn ystod 2016/17, penodwyd Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan. Gan weithio gyda Grŵp Plismona Cymru Gyfan, mae ffocws y rôl hon yn cynnwys cydweithredu yn y dyfodol, effeithlonrwydd drwy arbedion maint, gwella cydberthnasau â Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ac ymdrechion posibl i ddatganoli gwasanaethau plismona.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau yn canolbwyntio ar ganlyniadau cynaliadwy, hirdymor ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) statudol rôl hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau iechyd, annibyniaeth a llesiant pawb ledled Cymru, ac wrth sicrhau bod gan eu bywydau werth, ystyr a diben.

Fel un o'r gwahoddedigion statudol i bob un o'r pum BGC yng Ngwent, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gefnogi'r dull gweithredu mewn partneriaeth sy'n gonglfaen i waith y Byrddau hyn yng Ngwent. Byddwn yn parhau i weithio gyda phob un o'r pum BGC wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau gweithredu i'w rhoi ar waith yn ystod hydref 2018.

Gan weithio gyda BGC Casnewydd, bu fy swyddfa yn goruchwylio gweithgareddau cydgyssylltiedig wedi'u targedu yng nghanol y ddinas i fynd i'r afael â rhai o'r materion pwysigaf a godwyd gan y gymuned. O ganlyniad i'r guddwybodaeth gymunedol hanfodol a ddarparwyd i Heddlu Gwent, llwyddwyd i roi tri cham Ymgyrch Jewels ar waith - yr ymgyrch cyffuriau fwyaf yn hanes Heddlu Gwent.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn gweithio i gefnogi cynigion BGCau Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen i ddatblygu eu cynlluniau partneriaeth eu hunain ar gyfer y meysydd y nodwyd bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Bydd hyn yn parhau drwy gydol 2017/18.



Comisiynydd Heddlu a Throsteddu Gwent Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throsteddu De Cymru Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throsteddu Dyfed-Powys Dafydd Llywelyn a Chomisiynydd Heddlu a Throsteddu Gogledd Cymru Arfon Jones.

GWENT MWY DIOGEL

Sefydlwyd partneriaeth Gwent Mwy Diogel gan Swyddfa'r Comisiynydd ac mae'n gweithio gyda phartneriaid diogelwch cymunedol allweddol ledled ardaloedd y pum awdurdod lleol.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol, y bwrdd iechyd lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector gwirfoddol, gwasanaethau troseddwy'r ifanc a'r gwasanaethau prawf ac adsefydlu. Mae'n cynnig ffordd strategol a chydgyssylltiedig o gyflawni gwell canlyniadau diogelwch cymunedol wrth fynd i'r afael â materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, cydlyniant cymunedol, atal achosion o aildroeddu a rhoi cymorth i ddiodefwr.

Mae'r dull partneriaeth hwn wedi cael ei gydnabod fel Arfer Da yn ddiweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad yn 2016, Diogelwch Cymunedol yng Nghymru.

Drwy'r blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt a chan ddefnyddio cyfleoedd ariannu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae partneriaeth Gwent Mwy Diogel wedi helpu i gomisiynu prosiectau gwerth dros hanner miliwn o bunnoedd (£560,981), gan gynnwys ariannu'r ddarpariaeth ganlynol:


- Cydgysylltydd Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol rhanbarthol ac Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol i ardal Gwent er mwyn sicrhau lefelau cymorth cyson a hyder i ddiodefwr;
- Swydd Gweithiwr Camddefnyddio Sylweddau a Dioddefwyr ar gyfer y tri Gwasanaeth Troseddwy'r Ifanc yng Ngwent sy'n anelu at helpu pobl ifanc i leihau a/neu roi'r gorau i'r ymddygiad troseddol sy'n gysylltiedig â'u problemau o ran camddefnyddio sylweddau;
- Cydgysylltydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol i weithio gyda phartneriaid er mwyn cydgysylltu a rheoli gwelliannau i wasanaethau a sicrhau cysondeb o fewn y broses ar gyfer lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Gwent ac er mwyn rhoi ymateb cyson ar waith mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol er mwyn sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael;
- Gwaith partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru er mwyn cefnogi ei gyfranogiad yn 'Wynebu'r her gyda'n gilydd: pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion yng Nghymru' sy'n helpu teuluoedd i gymryd rhan weithredol wrth i'w plant ddysgu; ac
- Sicrhau bod pob partner yn defnyddio gwaith dadansoddi ar lefel strategol wrth gynllunio diogelwch cymunedol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio tuag at set wybodaeth gyffredin mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â throseddu a diogelwch cymunedol.

CYFIAWNDER ADFEROL

Yn dilyn gwaith ymchwil cychwynnol gan Gwent Mwy Diogel, gwahoddodd Swyddfa'r Comisiynydd y Cwmni Budd Cymunedol Restorative Solutions i gynnal astudiaeth i'r defnydd presennol o gyfiawnder adferol yng Ngwent. Dangoswyd bod cyfiawnder adferol yn lleihau achosion o aildroeddu drwy sicrhau y caiff troseddwy'r eu dwyn i gyfrif am yr hyn y maent wedi'i wneud a'u helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ddiodefwr gwrdd â'u troseddwy'r neu gyfathrebu â nhw er mwyn iddynt ddeall effaith wirioneddol y drosedd a'u helpu i wella yn dilyn y drosedd.

Ceir cefnogaeth eithriadol gan bartneriaid o blaid dull gweithredu clir ac unedig wrth ymdrin â bylchau a rhoi proses atgyfeirio effeithiol ar waith ledled Gwent ar gyfer cyfiawnder adferol. Trwy gydol 2017/18, gan ddefnyddio canlyniadau'r astudiaeth, byddwn yn cydweithio er mwyn dylunio dull gweithredu cyfiawnder adferol ar draws pob gwasanaeth yng Ngwent sydd:

- Yn hygyrch i bob diodefwr ledled Gwent gyfan;
- Yn canolbwyntio ar ddiodefwr;
- Yn cynnig gwell opsiynau i ddiodefwr;
- Yn effeithlon ac yn arbennig yn osgoi achosion o ddyblygu ymdrech ac adnoddau;
- Yn cynnig opsiynau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth dros amser er mwyn datblygu sir wirioneddol adferol.



DYFODOL POSITIF

Sefydlwyd prosiect Dyfodol Positif yn 2002 ac fe'i ariannwyd gan fy swyddfa ers 2013/14, ynghyd â phartneriaid eraill megis awdurdodau lleol, Chwaraeon Cymru ac Asda. Rhaglen cynhwysiant yn seiliedig ar chwaraeon yw'r prosiect, ac mae rhan o'r rhaglen yn defnyddio chwaraeon ac ymarfer corff i fentora pobl ifanc a'u dargyfeirio o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hefyd yn darparu gwasanaeth mentora un-i-un i bobl ifanc a rhaglenni ymgysylltu gwrthdynamadol, cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad personol a all arwain at gymwysterau neu gyflogaeth.

Cymerodd bron i 10,000 o unigolion ledled Gwent ran yn y rhaglen eleni ac mae Heddlu Gwent wedi nodi lleihad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd lle mae'r rhaglen ar waith.



Bachgen Ifanc yn ei Ardddegau yn Gwella ei Fywyd Diolch i'r rhaglen Dyfodol Positif

Un enghraifft amlwg o effaith y prosiect yw Rhys Thomas, 17 oed o Gaerffili.

Cafodd Rhys ei atgyfeirio i raglen Dyfodol Positif Caerffili yn 13 oed. Pan oedd yn 15 oed, torrodd y gyfraith ac fe'i hanfonwyd i sefydliad troseddwr ifanc am flwyddyn. Cadwodd y rhaglen Dyfodol Positif mewn cysylltiad rheolaidd ag ef drwy gydol ei gyfnod yn y sefydliad.

Dywedodd Rhys: "Rhoddodd y rhaglen ail gyfle i mi pan nad oedd neb arall yn fodlon gwneud hynny gan ddweud y byddwn yn fodel rôl da pe byddwn yn rhoi trefn ar fy mywyd, felly dyna wnes i. Llwyddais i gael swydd gyda nhw ac rwyf bellach yn helpu plant sy'n mynd i'r cyfeiriad anghywir ac yn dangos iddynt bod dewis arall".



Diolch i gymorth a mentora gan y rhaglen a'r trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Troseddwr Ifanc, mae Rhys bellach wedi troi ei gefn ar fywyd posibl o droseddu ac mae'n gweithio fel hyfforddwr chwaraeon i raglen Dyfodol Positif Caerffili. Caiff ei gyflogi bellach drwy Chwaraeon Caerffili, gan helpu i ddargyfeirio pobl sy'n symud i'r cyfeiriad anghywir o fywyd o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

"Mae'n bendant na fyddai swydd gennyf heblaw amdany'n nhw ac mae'n debyg y byddwn yn dal i gerdded y strydoedd yn achosi trafferth."

STOPIO A CHWILIO

Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau y caiff prosesau stopio a chwilio eu defnyddio'n briodol gan swyddogion. Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn cydgysylltu Grŵp Hapsamplu Stopio a Chwilio sy'n archwilio cofnodion stopio a chwilio, ffilm o gamerâu a gaiff eu gwisgo ar y corff, adborth 'Ansawdd y Cyswllt' a data perfformiad cysylltiedig ddwywaith y flwyddyn.

Caiff y canlyniadau eu cyflwyno i'm swyddfa a Heddlu Gwent ynghyd ag unrhyw argymhellion ac arsylwadau sy'n deillio o'r ymarfer a gaiff eu hystyried ochr yn ochr ag unrhyw gynlluniau gwella cenedlaethol a lleol.

Ers mis Hydref 2016, bu fy swyddfa yn gweithio gyda Heddlu Gwent a'r rhaglen Dyfodol Positif i ddylunio a gweithredu cyfres o sesiynau ledled Gwent i godi ymwybyddiaeth o hawliau pobl os cânt eu stopio a'u chwilio gan yr heddlu.

Byddwn yn defnyddio'r adborth a geir i fesur unrhyw newidiadau o ran ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r wybodaeth Gwybod eich Hawliau a newidiadau o ran canfyddiadau o'r heddlu.

SEIBERDROSEDDU

Ar hyn o bryd, mae 72% o'r holl droseddau a'r digwyddiadau y rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt yn gysylltiedig â defnyddio cyfrifiaduron neu'r cyfryngau cymdeithasol.

Gan fod troseddau a hwylusir gan ddulliau seiber wedi cynyddu, mae Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent wedi buddsoddi er mwyn darparu staff ychwanegol a hyfforddiant i swyddogion ymchwilio a chasglu cudd-wybodaeth ar-lein a thrwy dechnoleg gwybodaeth.

Cynhwyswyd tîm ymchwilio ar-lein o fewn strwythur Heddlu Gwent, sy'n canolbwyntio ar ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed rhag niwed, a chyflwynwyd adnoddau a thechnoleg ar gyfer swyddogion rheng flaen sy'n ei gwneud yn bosibl iddynt gael tystiolaeth amser real yn ddi-oad ar gyfer ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt.



Ategir yr adnoddau cynyddol hyn gan adolygiad llawn o seiber-allu Heddlu Gwent, gan adeiladu ar lwyddiant ei uned Seiberdroseddau ond gan sicrhau bod ganddo seiber-strategaeth a fydd yn anelu at atal achosion pellach o fictimeiddio ac yn lleihau'r galw. At hynny, bydd buddsoddi yn y dechnoleg newydd 'ar sail cwmwl' yn helpu swyddogion a staff i nodi troseddwy, atal niwed pellach a diogelu dioddefwyr yn y dyfodol. Bydd yr hyfforddiant ychwanegol yn gwella gallu ymchwiliol Heddlu Gwent, gan ei helpu i ddwyn troseddwy ger bron eu gwell a gwella gwasanaethau i'r cyhoedd.



Fel rhan o Ymgyrch NetSafe – y mae'r pedwar gwasanaeth heddlu yng Nghymru yn rhan ohoni – mae swyddogion yr heddlu a staff fforensig digidol medrus iawn yn ceisio dod o hyd i unigolion yng Nghymru sy'n defnyddio'r rhyngwrwyd i edrych ar ddelweddau a fideos o blant yn cael eu cam-drin a'u cyfnewid. Fel rhan o'r ymgyrch, mae'r heddlu yn gweithio'n agos gyda'r elusen diogelu plant Sefydliad Lucy Faithfull, y mae ei hymgyrch 'Stop it Now!' yn helpu pobl i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol mewn modd rhagweithiol.

Yn ystod y pum mis ar ôl lansio Ymgyrch NetSafe, ymwelodd 6,988 yn fwy o bobl o Gymru â www.stopitnow.org.uk o gymharu â'r cyfnod o bum mis blaenorol (sef cynnydd o 381%). O ganlyniad, mae'r gwasanaethau a ddarperir gan 'Stop it Now!' yn llawer mwy gweladwy i'r cyhoedd.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cefnogi ac ariannu nifer o fentrau yn y gymuned er mwyn sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i'w hatal rhag dioddef sgamiau a chynlluniau twyllodrus ar-lein. Aeth swyddogion o adran twyll Heddlu Gwent, ynghyd â'r Safonau Masnach, Action Fraud ac Age Cymru, i ddigwyddiad 'Get Safe Online in Gwent' a gynhaliwyd yng Nghwibrân.

Nod y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth a rhoddodd gyngor gwerthfawr o ran sut y gall pobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, ddiogelu eu hunain ar-lein. Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd ac rydym yn anelu at leihau nifer y bobl sy'n dioddef twyll.

DIOGELU EIN HENOED GYDA'N GILYDD

Gan anelu at wella partneriaethau gweithredol gydag amrywiol asiantaethau sy'n helpu i fynd i'r afael â sgamiau a chynlluniau twyllodrus, cynhaliodd Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent seminar 'Diogelu ein Henoed Gyda'n Gilydd' ar y cyd ag Age Cymru Gwent. Roedd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ymhlith y siaradwyr gwadd arbennig yn y digwyddiad a drefnwyd i gefnogi ei Siarter Genedlaethol (Partneriaeth Cymru yn erbyn Sgamiau) a'i Chynllun Gweithredu i ddiogelu pobl hŷn rhag sgamiau a chynlluniau twyllodrus.

Daeth tua 130 o bobl o amrywiol asiantaethau partner yng Ngwent i'r

seminar a thrafodwyd sut y gallant gydweithio'n well i ddwyn mwy o droseddwyr ger bron eu gwell. Mae Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent wedi datblygu cynllun gweithredu rhanbarthol ac wedi cydweithio'n agos â'r Safonau Masnach i lunio rhestr o fwy na 1,100 o bobl yng Ngwent sy'n debygol o gael eu twyllo gan sgamiau.

Dosbarthwyd y rhestr i bob awdurdod lleol yng Ngwent. Mae asiantaethau arbenigol o fewn Connect Gwent hefyd yn cysylltu â rhai o'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn rhoi cyngor arbenigol iddynt.



MYND I'R AFAEL Â CHAETHWASIAETH FODERN



Mae Heddlu Gwent yn chwarae rhan flaenllaw wrth fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2017, cynhaliais ddigwyddiad i godi ymwybyddiaeth o God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a luniwyd er mwyn helpu i ddatblygu cadwyni cyflenwi moesegol o fewn ein sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Rwyf yn ymrwymedig i gefnogi'r Cod Ymarfer a nod y digwyddiad oedd codi ymwybyddiaeth o'r cysyniad o gaethwasiaeth fodern yn y gymdeithas sydd ohoni a sut y mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae wrth nodi a diogelu pobl rhag cael eu masnachu a/neu eu gorfodi i weithio. Daeth dros 140 o bobl i'r gynhadledd a dangosodd gwerthusiad ohoni eu bod wedi cael budd ohoni. Yn dilyn y digwyddiad:

- Rwyf wedi cyfarfod â phob un o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru er mwyn cytuno y dylid mabwysiadu'r 'polisi cadwyn cyflenwi foesegol' yn swyddogol a'i roi ar waith. Ar ôl cytuno, cynhelir digwyddiad llofnodi swyddogol cyhoeddus gydag Ysgrifennydd y Cabinet;

- Mae llawer o sefydliadau mawr o'r sector cyhoeddus yn cysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn cael hyfforddiant a chyngor. Mae cynllun busnes wrthi'n cael ei lunio ar gyfer y sector preifat a fydd yn rhan o fframwaith arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru;

- Mae cynhadledd Canolfan Pobl Goll Gwent a chynhadledd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Amlasiantaeth Gwent yn cynnig dull gweithredol o nodi a helpu plant a gafodd eu masnachu neu y mae perygl y cânt eu masnachu;

- Caiff pob math o gaethwasiaeth fodern ei gynnwys o fewn dull gweithredu strategol Swyddfa'r Comisiynydd mewn perthynas ag unigolion agored i niwed a llesiant.

Rwyf yn cynrychioli'r pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ar Grŵp Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal Masnachu Pobl yng Nghymru. Mae'n cynnig cyfle i sicrhau, ochr yn ochr â gwaith Grŵp Atal Caethwasiaeth Gwent, ein bod yn cyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i atal caethwasiaeth a masnachu pobl ac yn dylanwadu ar yr ymdrech honno.



Daeth dros 140 o bobl i'r digwyddiad caethwasiaeth fodern yng Nghasnewydd

Troseddau Cudd

Clywodd y gynhadledd Caethwasiaeth Fodern hanes Blessing Oluwatimileyin, gwraig 47 oed a aned yn Nigeria a oedd wedi gweithio fel morwyn ers yn 7 oed cyn cael ei cham-drin yn rhywiol a'i masnachu.



Siaradodd Blessing Oluwatimiley, 47 oed, am ei phrofiadau yn y digwyddiad caethwasiaeth fodern.

Gan rannu ei phrofiad er mwyn helpu eraill, dywedodd Blessing: "Ni chefais blentyndod pleserus gan fy mod yn gweithio fel morwyn ac yn gwneud gwaith tŷ ac yn gofalu am blant, ymhlith pethau eraill. Ni chefais gyfle i gael addysg."

Daeth ei modryb â hi i'r DU pan oedd yn 35 oed gan addo bywyd gwell iddi. Fodd bynnag, ar ôl cyrraedd yn Llundain, cafodd ei bywyd ei reoli gan ei modryb ac fe'i gorfodwyd i lanhau tai. Y cyfan a gafodd yn gyfnewid am hynny oedd tocyn teithio. Talwyd yr holl arian a enillwyd ganddi i gyfrif ei pherthynas ac nid oedd ganddi unrhyw arian ar gyfer dillad na nwyddau ymolchi.

Dywedodd: "Mae'n anodd oherwydd os nad yw unigolyn yn gwybod ei fod yn cael ei fasnachu, ni fyddai'n gwybod sut i ymdrin â hynny."

Ar ôl wyth mis, rhedodd Blessing i ffwrdd a daeth i Gaerdydd. Dywedodd sefydliad cymorth BAWSO, sy'n rhoi cymorth iddi wneud cais am loches ar hyn o bryd, fod ei brosiect masnachu wedi helpu 82 o bobl yn 2014-15, gan gynyddu i 209 yn 2016-17.

Dywedodd Blessing, sydd bellach wedi dychwelyd i fyw yn Llundain: "Roeddwn yn teimlo bod pobl wedi cymryd mantais sylweddol o'm hamgylchiadau a'm sefyllfa. Rwyf am anghofio popeth a ddigwyddodd yn y gorffennol a chau'r bennod honno."

CYNLLUN DARGYFEIRIO'R PROSIECT BRAENARU I FENYWOD



Un o fentrau Rheoli Integredig Troseddwy'r Cymru yw'r Cynllun Braenaru i Fenywod, a sefydlwyd yn 2013, ac mae'n anelu at ddylunio a darparu dull gweithredu integredig system gyfan yn benodol i fenywod wrth ddarparu gwasanaethau i fenywod a ddaw i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru.

Mae'n helpu menywod ar eu taith drwy'r system cyfiawnder troseddol o'r adeg y cânt eu harestio hyd at yr adeg y cânt eu rhyddhau o'r carchar, gan sicrhau bod ymateb amlasiantaeth cydgysylltiedig ar gyfer pob achos. Un o nodweddion allweddol y cynllun yw darparu ymateb amlasiantaeth er mwyn dargyfeirio menywod (lle y bo'n briodol) o'r system cyfiawnder troseddol ac i gymorth ac ymyriadau cymunedol cyn gynted â phosibl.

Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cael ei dreialu ymhob ardal blismona yng Nghymru a bu ar waith yng Ngwent ers 1 Hydref 2015.

Hyd yn hyn, dargyfeiriwyd 141 o fenywod drwy'r Cynllun. Bydd gwerthusiad ffurfiol ar gael yn ddiweddarach yn 2017 ac fe'i defnyddir i lywio defnydd ehangach o'r Cynllun yng Ngwent. Fodd bynnag, mae canfyddiadau cynnar yn awgrymu potensial sylweddol ar gyfer yr ymyriad fel ffordd o leihau lefelau aildrosedd ymhlith troseddwy'r benywaidd risg isel.

GWASANAETH CYFFURIAU AC ALCOHOL GWENT (GDAS) AC IRIS-GWENT

Caiff Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent ei weithredu ar y cyd rhwng Swyddfa'r Comisiynydd, y Bwrdd Cynllunio Ardal lleol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac mae'n cynnig y gwasanaeth integredig cyntaf yng Ngwent ar gyfer ymyriadau yn ymwneud â chyffuriau, alcohol a phroblemau teuluol i unigolion, gan gynnwys troseddwy'r a chymunedau yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau.

Darperir yr elfen cyfiawnder troseddol drwy'r Gwasanaeth Ymyriadau Adfer Integredig (IRIS).

Derbyniodd y gwasanaeth 1,703 o atgyfeiriadau yn ystod 2016/17 ac mae'r cyflawniadau allweddol ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

- Integreiddio gwasanaethau yn well gyda gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cymunedol GDAS;;
- Cyflwyno pecynnau Naloxone a hyfforddiant i unigolion sy'n gadael y ddalfa ledled Gwent (gweinyddir Naloxone i bobl yr amheuir eu bod wedi cymryd gorddos);
- Datblygiadau yn y gwasanaeth cyswllt carchardai gan arwain at 418 o atgyfeiriadau am ofal parhaus gan garchardai eleni, cynnydd o 25% (314) o 2015/16; ac
- Gwell dull o asesu'r risg i weithwyr achos. Mae archwiliadau ansawdd yn dangos gwell ymwybyddiaeth ymhlith staff o risg, gwell trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwaith cyswllt mwy effeithiol gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol.


CYDLYNIANT CYMUNEDOL

Mae cydlyniant cymunedol yn chwarae rhan allweddol wrth atal a lleihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Drwy gyfathrebu a chydweithredu â'n cymunedau, mae Swyddfa'r Comisiynydd, Heddlu Gwent a phartneriaid yn cydweithio i greu Gwent sy'n integredig, yn gydlynol ac yn gydnerth. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r weledigaeth ar gyfer 'Cymru o gymunedau cydlynus' yn darparu sail i'r gwaith hwn. Bu Swyddfa'r Comisiynydd yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau sy'n ategu cydlyniant, gan gynnwys y canlynol:

- Cyfranogiad gweithredol yn y Grŵp Cymunedau Diogel a Chydlynus sy'n monitro cynnydd Cynllun Ffocws Ardal Pilgwenlli;
- Bod yn un o aelodau sylfaen Grŵp Landlordiaid Cymunedol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig Pilgwenlli;
- Ariannu a chynnal digwyddiad i arddangos canfyddiadau prosiect ymchwil a gomisiynwyd drwy Gyngor Hil Cymru;
- Dod ag aelodau o'r cyhoedd a ffoaduriaid a cheiswyr lloches ynghyd i annog cymunedau mwy cefnogol; ac
- Cefnogi gwaith Heddlu Gwent i wella gwaith ymgysylltu â chymunedau o Deithwyr Sipsiwn Roma a thrigolion lleol, fel y nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd 2016-2020.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn aelod o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru. Drwy'r bartneriaeth hon, rydym wedi adolygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-2020 a fydd hefyd yn rhan allweddol o'n gwaith cynllunio strategol wrth i ni symud ymlaen.



Y GRONFA BARTNERIAETH

Ers ei lansio gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu cyntaf Gwent bedair blynedd yn ôl, dyfarnwyd tua £750,000 i tua 250 o brosiectau cymunedol ledled Gwent drwy'r Gronfa Bartneriaeth.

Mae'r cynllun grantiau bach yn dyfarnu rhwng £250 a £10,000 mewn arian parod a atafaelwyd gan droseddwy'r a thrwy werthu eiddo a ganfyddir nas hawlir i brosiectau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymuned. Mae hyn yn cynnwys arian a atafaelwyd gan grwpiau troseddau cyfundrefnol.

Cyhoeddais fod y Gronfa Bartneriaeth ar gyfer 2016/17, y gronfa gyntaf ers i mi ddechrau yn fy swydd, ar agor ym mis Mehefin 2016 a derbyniwyd cyfanswm o 160 o geisiadau, y bu 90 ohonynt yn llwyddiannus. Mae'r brosiectau a ariannwyd yn cynnwys y canlynol:

RAS AM ARIAN



Roedd un o'r llwyddiannau sy'n dangos effaith yr arian hwn yn glir yn deillio o £800 a ddyfarnwyd gennym i Ysgol Gynradd New Inn yn Nhorfaen er mwyn iddynt allu trefnu ras hwyl gwisg ffansi noddedig i godi arian ar gyfer yr ysgol.

Rhedodd mwy na 500 o ddisgyblion o amgylch tir yr ysgol wedi gwisgo fel swyddogion yr heddlu, diffoddwy'r tân, nysys a meddygon er mwyn talu teyrnged i'r bobl sy'n ein helpu. Llwyddodd yr ysgol i godi dros £6,500 mewn pythefnos drwy nawdd unigol a dosbarth gan godi ymwybyddiaeth o addysg gorfforol a chreu cysylltiadau â'r gymuned a rhieni ar yr un pryd.

Gan brofi y gall symiau bach o arian wneud gwahaniaeth mawr, defnyddir yr arian a godwyd i ddatblygu ardaloedd awyr agored yr ysgol, gan gynnwys gardd synhwyraidd ac ardal cwrs rhwystrau.

GWELD GOBATH



£5,000 i brosiect Therapi â Chymorth Anifeiliaid 'Vision of Hope' yn Sir Fynwy, lle y gall pobl ifanc â phroblemau camddefnyddio sylweddau a chyn-droseddwy'r fynd i fyw a gweithio ar y fferm gan fanteisio ar driniaeth a therapi ar y safle mewn perthynas â gofalu am anifeiliaid.

GWARCHEIDWAID Y NOS



£3,000 i Fugeiliaid Stryd Casnewydd brynu cyfarpar a lifrau newydd i'w gwirfoddolwyr er mwyn iddynt allu parhau â'u gwaith ar nos Wener a nos Sadwrn yn tawelu'r dyfroedd ar strydoedd y ddinas ac yn helpu pobl agored i niwed i gyrraedd adref yn ddiogel.

PANELI ATAL TROSEDDAU

Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i roi cymorth ariannol i'r Paneli Atal Troseddau a sefydlwyd o fewn ardaloedd Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen yng Ngwent.

Mae'r Paneli yn cynnwys gwirfoddolwyr sy'n gweithio i gefnogi trefniadau plismona lleol. Cânt gymorth gan swyddogion Heddlu Gwent a bwriedir iddynt helpu gyda gweithgareddau hyrwyddo, addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus drwy roi cyhoeddusrwydd i fentrau atal troseddau sy'n helpu i leihau troseddau a'u heffaith ar y gymuned.

Yn ystod 2016/17, cytunais i ddarparu cyllid i Banel Atal Troseddau newydd Torfaen i'w helpu i roi mentrau atal troseddau lleol ar waith. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i weithio gyda'r Paneli er mwyn sicrhau y caiff yr arian a ddarparwyd ei ddefnyddio'n effeithiol.

GWELLA'R BROSES CYFIAWNDER TROSEDDOL

Rwyf yn parhau'n Gadeirydd ar Fwrdd Strategaeth Cyfiawnder Troseddol Gwent.

Fel aelod o'r Bwrdd, mae Swyddfa'r Comisiynydd yn hwyluso adolygiad o'r trefniadau partneriaeth lleol er

mwyn asesu p'un a ydynt yn addas at y diben o ran arwain gwelliannau i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yng Ngwent.

Bydd yr adolygiad yn parhau drwy gydol 2017/18 a bydd y canlyniadau yn helpu i lywio ffocws y Bwrdd a'i berfformiad yn y dyfodol.



ATAL TROSEDDAU MEWN ARDALOEDD GWLEDIG



Mae bron i 44,000 o gartrefi wedi'u cofrestru ar System Negeseuon Cymunedol Gwent Now.

Bu Swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i atal troseddau mewn ardaloedd gwledig. Rwyf yn parhau i ariannu system negeseuon cymunedol Gwent NOW i'n trigolion sy'n chwarae rhan allweddol wrth rannu gwybodaeth gyda'n cymunedau gwledig ac wrth fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio arnynt. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Parhau i ddefnyddio Gwent NOW i gynnal system Farmwatch sy'n helpu i fynd i'r afael â throseddau gwledig drwy hwyluso trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyflym rhwng aelodau a Heddlu Gwent;
- Gweithio gydag AS Blaenau Gwent, Nick Smith, i hwyluso cyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol yn y gymuned er mwyn mynd i'r afael â'r defnydd anghyfreithlon o gerbydau oddi ar y ffordd a'r niwsans sy'n gysylltiedig â cherbydau o'r fath. Datblygwyd mentrau i fynd i'r afael â'r problemau mewn ardaloedd lle ceir lefel uchel o broblemau, gan gynnwys rhoi rhaglen addysg ar waith mewn ysgolion ac ymgysylltu â grwpiau beicwyr;
- Parhau i ariannu'r broses o sefydlu safleoedd Gwyllo Cyflymder Cymunedol mewn ardaloedd gwledig lle ceir problemau cydnabyddedig o ran cyflymder cerbydau. Mae'r cynllun yn gweithredu ar ffyrdd lle ceir terfynau cyflymder o 40mya neu is ac mae gwirfoddolwyr cymunedol yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion Heddlu Gwent neu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i nodi cerbydau sy'n mynd yn gyflymach na'r terfyn cyflymder. Ar hyn o bryd, mae 188 o wirfoddolwyr cofrestredig a 27 o safleoedd ledled Gwent. Anfonwyd cyfanswm o 283 o lythrau cyngor at fodurwyr yn ystod y flwyddyn.

EDRYCH I'R DYFODOL 2017-2021



Bu fy mlwyddyn gyntaf fel eich Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn foddhaus iawn ac fel y gwelwch o'r adroddiad hwn, rydym wedi cyflawni cryn dipyn yn ystod y cyfnod hwn.

Rwyf wedi gwneud fy ngorau glas i sicrhau bod fy Nghynllun yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Gwent 2017-2021 yn adlewyrchu'r hyn y mae ein trigolion wedi'i ddweud wrthyf am eu blaenoriaethau a'u pryderon. Hoffwn ddiolch i Ddirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Eleri Thomas, pob aelod o staff yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'n partneriaid niferus yn y gymuned am yr holl waith caled y maent wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i wella gwasanaethau i'n trigolion.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Prif Gwnstabl, Tim y Prif Swyddogion, pob un o swyddogion yr heddlu, staff a gwirfoddolwyr am eu gwaith caled. Yr hyn sydd wedi creu'r argraff fwyaf arnaf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yw brwdfrydedd digyfnewid ac ymroddiad amlwg ein swyddogion rheng flaen ar lawr gwlad mewn perthynas â'r swyddi anodd y maent yn eu gwneud o dan amgylchiadau sy'n aml yn heriol. Hoffwn gydnabod hynny gan ddiolch i bob un ohonynt.

Rwyf bellach yn edrych ymlaen at roi fy Nghynllun yr Heddlu a Throseddu ar waith ac at sicrhau bod pobl Gwent, yn enwedig y bobl fwyaf agored i niwed, yn cael y gwasanaeth plismona gorau posibl. Bydd gwranddo ar eich problemau, pryderon a sylwadau yn parhau'n rhan bwysig o'm gwaith ar gyfer 2017/18 a byddaf yn parhau i ddefnyddio eich adborth i wella gwasanaethau plismona a datblygu partneriaethau hanfodol er mwyn cadw ein cymunedau yn ddiogel.

Nid oes amheuaeth mai mantoli cyllidebau yw un o'r heriau mwyaf y mae pob gwasanaeth yng Nghymru a Lloegr yn eu hwynebu, boed yn wasanaeth plismona neu'n wasanaeth arall. Mae'r ffordd rydym wedi gwella a datblygu fel gwasanaeth plismona yng Ngwent, er gwaethaf gostyngiadau parhaus yn y gyllideb o flwyddyn i flwyddyn, yn rhyfeddol. Rwyf wrth fy modd y byddwn yn croesawu 120 o swyddogion yr heddlu newydd i Heddlu Gwent drwy gydol 2017/18, gan roi mwy o sicrwydd i'n cymunedau a hybu ein galluoedd rheng flaen.

Byddaf yn parhau i fonitro gwaith y Prif Gwnstabl wrth weithredu'r rhaglen arbedion Staying Ahead a'i ddefnyddio o adnoddau gan gydweithio hefyd â'm cyd Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a Lloegr i sicrhau yr ymddrinnir â materion sy'n ymwneud ag ariannu'r heddlu.

Mae'r byd plismona yn newid yn barhaus ac mae angen i ni fod yn ddigon hyblyg i addasu i'r newidiadau hynny ac i reoli blaenoriaethau newydd a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

Byddaf yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl i weithredu 'Gweledigaeth Blismona 2025' Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (APCC) a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), sy'n ystyriaeth hanfodol wrth roi Cynllun yr Heddlu a Throsedd 2017-2021 ar waith. Er mwyn cyflawni hyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gweithio gyda Heddlu Gwent a phartneriaid eraill i ddatblygu nifer o fentrau, gan gynnwys y canlynol:

- Mynd i'r afael â seiber-droseddau er mwyn lleihau nifer y dioddefwyr yng Ngwent;
- Datblygu cyfleoedd pellach i ddargyfeirio unigolion o'r ddalfa;
- Rhoi dull gweithredu cyson ar waith mewn perthynas â Chyfiawnder Adferol;
- Rhoi model Plismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn ar waith yng Ngwent;
- Parhau i ddatblygu ein ffocws ar wasanaethau a darpariaeth iechyd meddwl;
- Adolygu trefniadau llywodraethu Gwent Mwy Diogel yn dilyn Adolygiad Archwilio SAC yn 2017 mewn perthynas â'r sefyllfa o ran diogelwch cymunedol yng Nghymru;
- Parhau i wella'r cymorth a roddir gennym i'r unigolion mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.



Byddwn hefyd yn parhau â'n hymrwymiad i sicrhau bod blaenoriaethau fy Nghynllun yr Heddlu a Throsedd 2017-2021 yn gyson â chynlluniau llesiant y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau ymateb cydgysylltiedig i'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau.

Mae perfformiad Heddlu Gwent ers dechrau yn fy swydd wedi creu argraff gadarnhaol arnaf.

Mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa dda i fodloni gofynion nawr ac yn y dyfodol ac mae wedi datblygu o wasanaeth yr oedd angen gwella pob rhan ohono i un o'r gwasanaethau sydd wedi gwella fwyaf yng Nghymru a Lloegr.

Wrth symud ymlaen, byddaf yn parhau i gynnal a meithrin cysylltiadau cryf rhwng y sector gwirfoddol a chymunedol a'm swyddfa, a datblygu cyfleoedd a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion newydd ein cymunedau. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r Prif Gwnstabl a'n partneriaid i sicrhau bod pobl sy'n byw neu'n gweithio yng Ngwent neu'n ymweld â'r ardal yn ddiogel a bod y gwasanaethau plismona a throseddau a ddarperir yn cynnig gwerth am arian. Rwyf am sicrhau bod Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gwent yn gyflogwyr y mae pobl am weithio iddynt.

Rwyf bellach yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf a byddaf yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl Gwent yn cael y gwasanaeth gorau posibl. Gallaf eich sicrhau y byddaf yn parhau i weithio'n galed i wella gwasanaethau plismona ac i roi partneriaethau hanfodol ar waith er mwyn cadw ein cymunedau yn ddiogel.

Jeff Cuthbert

Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gwent